# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL GRŴP LLANDRILLO MENAI

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2023

## Rheolwyr allweddol

Diffinnir y rheolwyr allweddol fel aelodau Uwch Dîm Rheoli'r Grŵp a oedd yn cynnwys yr unigolion isod yn 2023:

Dafydd Evans - Prif Weithredwr; Swyddog Cyfrifyddu
Paul Bevan - Uwch Gyfarwyddwr – Datblygiadau Masnachol
Sharon Bowker - Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Aled Jones-Griffith - Pennaeth Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor
James Nelson - Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Academaidd
Lawrence Wood - Pennaeth Coleg Llandrillo

## Bwrdd y Llywodraethwyr

Ceir rhestr lawn y Llywodraethwyr ar dudalen 18 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredodd Mr T Prosser, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth y Grŵp, fel Clerc y Gorfforaeth drwy gydol y cyfnod.

## Cynghorwyr Proffesiynol

*Archwilwyr Annibynnol*: RSM UK Audit LLP
One City Place
Queens Road
Caer
CH1 3BQ

*Archwilwyr Mewnol:* TIAA
Artillery House
Fort Fareham
Newgate Lane
Fareham
PO14 1AH

*Prif Fancwyr:* Barclays Bank plc.
Corporate Banking Centre
P O Box 3333,
One Snowhill
Snow Hill Queensway,
Birmingham,
B3 2WN

*Cyfreithwyr:* Eversheds
1 Sgwâr Callaghan,
Caerdydd
CF10 5BT

J W Hughes & Co
27 Stryd Augusta
Llandudno
LL30 2AD

# Cynnwys

Adroddiad Blynyddol 6

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol209

Datganiad ynghylch Cysondeb, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth264

Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth275

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Gorfforaeth Grŵp Llandrillo Menai297

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr...................................... 31

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 (parhad)3432

Datganiad Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 20233533

Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023364

Datganiad Cyfunol ynghylch Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023375

Nodiadau i gyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023386

Adroddiad Blynyddol

Cyflwyna aelodau Bwrdd Corfforaeth Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) eu hadroddiad, a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

1. Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i'r diben o redeg Grŵp Llandrillo Menai (y Gorfforaeth). I ddibenion Deddf Elusennau 2011, mae'r Grŵp yn elusen a eithriwyd.

2. Cenhadaeth

Y llynedd, lansiodd y Grŵp gynllun strategol pum mlynedd newydd am y cyfnod 2022-2027 gan gadw'r genhadaeth i "Wella Dyfodol Pobl". Cefnogir y genhadaeth hon gan y pum thema strategol a amlinellir isod:




Rhennir pob un o'r themâu allweddol hyn yn flaenoriaethau pellach a fesurir gan ddangosyddion perfformiad allweddol:

**Bod ar Flaen y Gad yn y Byd Modern**

| Blaenoriaethau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Ymgorffori hyblygrwydd a gwytnwch ym mhopeth a wnawn | DPA 1 - Nifer y dyddiau hyfforddi i bob aelod o staff |
| Bod ar flaen y gad o ran digidoleiddio | |
| Ymgorffori cynaliadwyedd yn yr holl gwricwlwm | |
| Datblygu DPP perthnasol i'r holl staff ynghyd â diwylliant o ymgyrraedd at ragoriaeth | DPA 2 - Buddsoddiad cyfalaf bob blwyddyn |
| Rhoi pwyslais ar arloesi fel ei fod yn dod yn rhan naturiol o'n gwaith | |
| Creu arweinwyr a fydd yn ffynnu yn y byd modern | DPA 3 - Cyfran y dysgwyr sydd â chyfarpar digidol |
| Cyllido rhaglen gyfalaf uchelgeisiol er mwyn darparu cyfleoedd sy'n arwain y sector | |

**Ein lle yn y Gymuned**

| Blaenoriaethau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac uchelgais drwy Ddysgu Gydol Oes | DPA 1 - Cyfraddau llwyddo grwpiau lleiafrifol |
| Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill | |
| Bod yn adnabyddus a chael enw da am gefnogi ein cymunedau | |
| Arwain y ffordd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth | DPA 2 - Cyfraddau llwyddiant mewn ardaloedd o amddifadedd |
| Blaenoriaethu ardaloedd o amddifadedd | |
| Creu ymdeimlad gwirioneddol o gymuned yng Ngrŵp Llandrillo Menai | DPA 3 - Cynyddu'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned |
| Buddsoddi yn ein staff a bod yn gyflogwr mae pobl yn ei ddewis | |

**Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr**

| Blaenoriaethau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol ac yn arwain at ddilyniant | DPA 1 - Cyfraddau Llwyddo Dysgwyr |
| Staff addysgu rhagorol sy'n sicrhau canlyniadau rhagorol | |
| Arwain a chefnogi ein dysgwyr, er mwyn cyflawni deilliannau rhagorol | |
| Goresgyn y rhwystrau sy'n dal dysgwyr yn ôl | DPA 2 - Nifer y dysgwyr sy'n cael eu recriwtio |
| Gadael i Lais y Myfyrwyr ddylanwadu ar ein blaenoriaethau | |
| Meddu ar strategaeth farchnata gyffrous i hyrwyddo ein darpariaeth | DPA 3 - Nifer y dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth |

**Defnyddio sgiliau a gwybodaeth i ysgogi'r economi**

| Blaenoriaethau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Gweithio'n agos gyda chwmnïau a phartneriaethau sgiliau er mwyn ehangu'r economi | DPA 1 - Nifer y prentisiaethau llwyddiannus |
| Cynnig hyfforddiant a ystyrir y gorau yn y sector i gyflogwyr | |
| Cynyddu nifer y prentisiaid | |
| Ehangu ac ymestyn ein darpariaeth addysg uwch | DPA 2 - Nifer y dysgwyr AU llwyddiannus |
| Datblygu cyfres o Ganolfannau Trosglwyddo Gwybodaeth a fydd yn sail ar gyfer datblygiadau yn y sector diwydiannol | |
| Chwarae rhan flaenllaw yn "Uchelgais Gogledd Cymru" | DPA 3 - Nifer y cyrsiau hyfforddi pwrpasol i gyflogwyr |
| Sicrhau bod gan yr holl staff wybodaeth gyfredol ar lefel y diwydiant | |

**Ein rôl mewn Cymru gynaliadwy**

| Blaenoriaethau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Gwella iechyd a lles ein dysgwyr a'n staff | DPA 1 - Categorïau iechyd ariannol |
| Anelu at fod yn sefydliad di-garbon | |
| Meithrin sgiliau cynaliadwyedd yn ein heconomi leol | DPA 2 - Cyfraddau salwch staff |
| Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein holl weithgareddau | DPA 3 - Y gyfran o'r cwricwlwm a ddarperir yn ddwyieithog |
| Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru | |
| Gofalu ein bod yn gweithredu'n effeithlon er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol | DPA 4 - Targed Amgylcheddol / Ein cynnydd tuag at fod yn sefydliad Sero Net |
| Bod yn llais cryf yn y broses o lunio polisïau rhanbarthol a chenedlaethol | |

Ceir dolen i gopi digidol o'r cynllun strategol yma.

Craffa'r Bwrdd yn rheolaidd ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r cynllun a'r cynlluniau gweithredol cysylltiedig. Bydd y Grŵp yn parhau i adrodd ar gynnydd mewn cyfarfod cyhoeddus blynyddol, lle byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol.

## 3. Adnoddau

Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi yn yr adnoddau mae'n eu defnyddio i fynd i'r afael â'i amcanion strategol, gan fuddsoddi'n sylweddol mewn offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yr ystadau a datblygiadau cyfalaf.

Yn ystod 2022/23, roedd y Grŵp yn cyflogi 1,578 ar gyfartaledd (2021/22: 1,554), ac roedd 984 o'r rhain yn staff addysgu (2021/22: 965).

### 3.1. Y Ddarpariaeth

Prif nod y Grŵp yw diwallu anghenion addysgol siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn drwy ddarparu cyfleoedd addysgol a hyfforddiant o safon uchel. Trwy gydol 2022/23, addysgodd y Grŵp 11,639 (2021/22: 10,964) o fyfyrwyr Addysg Bellach (4,697 ar gyrsiau llawn amser a 6,942 ar gyrsiau rhan-amser), 1,068 (2020/21: 1,076) o fyfyrwyr Addysg Uwch (429 llawn amser a 639 rhan-amser) a 2,956 (2021/22: 2,559) o fyfyrwyr drwy gontract dysgu seiliedig ar waith y Grŵp (oll yn rhan-amser). Yn ogystal, addysgwyd 3,062 (2021/22: 3,463) o ddysgwyr ar raglenni dysgu penodol (i ddiwydiant yn aml) nas ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.2. Rhagoriaeth

**Proffil Arolygiadau/Adolygiadau**

| **Y Ddarpariaeth** | **Dyddiad yr Arolygiad** | **Gradd:** |
|---|---|---|
| Addysg Bellach (Estyn) | 2017 | Da |
| Dysgu Seiliedig ar Waith (Estyn) | 2023 | n/a* |
| Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned (Gwynedd a Môn) (Estyn) | 2019 | Da |
| Dysgu Seiliedig ar Waith Hyfforddiant Gogledd Cymru (Ofsted) | 2023 | Da |
| Addysg Uwch (QAA) | 2022 | Yn bodloni'r disgwyliadau** |

* Nid yw graddio bellach yn rhan o fframwaith arolygu Estyn – tynnodd yr adroddiad a gyhoeddwyd o'r adolygiad sylw at gyflawniadau, ymroddiad a chynnydd eithriadol prentisiaid, gan sefydlu'r consortiwm yn gadarn fel arloeswr yn y sector addysg.

** Nid yw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn graddio ond yn hytrach yn mesur y darparwr yn erbyn disgwyliadau Cod Ansawdd y DU ac yn erbyn a safonau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol (ESG Part 1). Y canlyniad gorau yw bodloni disgwyliadau - mae hyn yn dangos bod gan y darparwr drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd a gwella ansawdd profiadau'r myfyrwyr.

**Y Prif Gryfderau a nodwyd mewn Arolygiadau ac Adolygiadau**

**Addysg Bellach**

- Mae darpariaeth y Grŵp yn cynnig dilyniant da iawn i ddysgwyr
- Mae'r Grŵp yn cynnig amrediad helaeth ac eang o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Mae'r Grŵp yn cefnogi iechyd a lles ei ddysgwyr yn dda; mae'r dysgwyr yn elwa ar wasanaethau cefnogi a chwnsela eang sy'n cael eu darparu gan y Grŵp a chan asiantaethau allanol arbenigol
- Mae'r Grŵp wedi sefydlu ethos cadarnhaol cryf ac yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae mwyafrif helaeth y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth dda
- Mae arweinyddiaeth y Prif Weithredwr yn rhagorol; mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn gefnogol iawn i'r Grŵp ac wedi ymroii'w brif nodau ac amcanion
- Mae uwch reolwyr yn dangos penderfyniad ac uchelgais yn eu hawydd i sicrhau gwelliannau i'r agweddau allweddol ar waith y Grŵp
- Mae'r corff llywodraethu'n hynod effeithiol ac yn cynnig ystod eang o sgiliau a gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi'r Prif Weithredwr yn ogystal â'i herio'n gryf ac effeithiol
- Mae gan y Grŵp bartneriaethau cryf ac effeithiol ag amrediad eang o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i ddysgwyr ar draws y rhanbarth

  Gwnaed argymhellion i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyrraedd y safon uchaf ac yn cael y graddau gorau y gallant; i wella'r defnydd o dargedau tymor byr; i wella strategaethau addysgu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n llawn, ac i wella ansawdd prosesau hunanwerthuso mewn meysydd dysgu

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

- Mae nifer sylweddol o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau cymwysterau'n llawn, gyda'r cyfraddau cyrhaeddiad yn parhau i wella yn bron pob maes rhaglen.
- Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau hyfforddi.
- Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda ar y cyfan, a cheir ambell enghraifft o arfer ragorol.
- At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn dda a chaiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i ddatblygu eu haddysg a'u medrau cyflogadwyedd.
- Gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang iawn o raglenni hyfforddi ac adnoddau a chyfleusterau da i ragorol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.
- Mae uwch reolwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol ac yn gosod targedau o ran darparu dysgu seiliedig ar waith

  Gwnaed argymhellion i wella cyfraddau llwyddo a chwblhau dysgwyr mewn rhaglenni dysgu a meysydd dysgu sy'n tanberfformio, ac i sicrhau bod yr holl diwtoriaid ac aseswyr yn datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd y dysgwyr mewn ffordd gyson ym mhob maes dysgu

**Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned (Gwynedd a Môn) (Estyn)**

- Mae'r dysgwyr yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn cyfrannu'n dda mewn sesiynau. Maent yn gwneud ffrindiau newydd ac yn meithrin dyfalbarhad a gwytnwch.
- Mae'r dysgwyr yn magu hyder ac ôl cael profiadau dysgu gwael yn y gorffennol.
- Mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael croeso yn y dosbarth.
- Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod briodol o gyrsiau llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol ac ESOL yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgwyr yn dda i oresgyn ystod o rwystrau i'w dysgu a'u datblygiad personol.
- Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir gyda nodau, amcanion a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion llawer o ddysgwyr.
- Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn dda ym maes dysgu oedolion, ac maent yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ar gyfer cyflogaeth leol.

Bydd Estyn yn cynnal arolygiad o bartneriaeth Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Siroedd Dinbych a Chonwy yn 23/24 cyn cau'r cylch cyfredol o arolygiadau ar sail y fframwaith arolygu presennol.

**Dysgu Seiliedig ar Waith Hyfforddiant Gogledd Cymru (Ofsted)**

- Mae gan yr uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u staff a'u prentisiaid. Mae'r arweinwyr yn rhoi camau effeithiol ar waith i wella'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella
- Mae gan yr arweinwyr a'r rheolwyr strategaeth glir ar gyfer y cwricwlwm y maent yn ei gynnig. Maent yn llunio meysydd llafur sy'n ymateb i'r bylchau mewn sgiliau a nodwyd yn genedlaethol
- Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr sydd wedi'u dadrithio ac sydd heb fod yn frwd dros addysg a hyfforddiant o'r blaen
- Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn dewis staff sydd â chymwysterau da ac sydd â phrofiad perthnasol mewn diwydiant. Mae staff yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol i'w helpu i wella eu harferion addysgu.
- Mae'r prentisiaid yn meithrin llawer o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau newydd yn ystod eu prentisiaeth drwy strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol.
- Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant y mae eu prentisiaid yn ei dderbyn a'i fod yn eu galluogi i gyfrannu at waith eu tîm trwy ddod yn fedrus mewn meysydd amrywiol a chyflawni amryfal dasgau.
- Mae gan aelodau'r bwrdd cynghori arbenigedd angenrheidiol yn y sector addysg a phrentisiaethau. Mae'r uwch arweinwyr yn cyflwyno ystod o wybodaeth iddynt i'w galluogi i gefnogi a herio'n effeithiol. Maent yn herio arweinwyr ynghylch newidiadau i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod anghenion cyflogwyr ac anghenion rhanbarthol yn cael eu diwallu
  Mewn ychydig o'r rhaglenni gwnaed argymhellion i addysgu'r sgiliau ehangach sydd eu hangen ar brentisiaid i allu dysgu'n annibynnol ac ymestyn eu gwybodaeth; sicrhau bod pob prentis yn elwa ar gyngor diduedd ynghylch dilyniant; sicrhau bod gan bob dysgwr ddealltwriaeth dda o radicaleiddio ac eithafiaeth

**Addysg Uwch**

**Cymeradwywyd darpariaeth y Grŵp mewn pedwar maes:**

- Ehangder y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr
- Cyfleusterau dysgu ac addysgu
- Agwedd strategol tuag at ddysgu ar-lein a dysgu o bell er mwyn sicrhau profiadau dysgu cynhwysol
- Ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid wrth lunio rhaglenni a'u cyflwyno

**Yn ogystal, cymeradwyodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y camau a gymerwyd gan y Grŵp yn y meysydd canlynol i wella ymarfer:**

- Camau wedi'u cymryd i ymgysylltu â'r corff myfyrwyr er mwyn gwella profiadau dysgu
- Camau wedi'u cymryd i gynyddu cyfleoedd galwedigaethol cyfrwng Cymraeg
- Symleiddio'r broses dderbyn ar gyfer AU

**Gwnaed un argymhelliad:**

- Hyfforddiant i gefnogi cysondeb prosesau hunanasesu

**Deilliannau Cyfredol**

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnal canlyniadau cryf yr arolygiadau a'r adolygiadau a nodir uchod. Mae'n parhau i fod yn hynod effeithiol wrth gefnogi dysgwyr i gyflawni a goresgyn y rhwystrau a ddaeth yn sgil COVID.

Mae cyfraddau llwyddiant AB yn dangos bod dysgwyr wedi cyflawni canlyniadau uwch na'r cymharydd cenedlaethol yn 21/22 ac mae data nas wiriwyd yn dangos gwelliant pellach yng nghanlyniadau galwedigaethol AB yn 22/23.

Rhagwelir y bydd deilliannau dysgu seiliedig ar waith y Grŵp ar gyfer 22/23 10% yn uwch na chymharydd 21/22 tra bydd deilliannau'r consortiwm 7% yn uwch.

Rhagwelir y bydd deilliannau AU yn dangos tuedd gyson ar draws tair blynedd.

3.3 Perfformiad Ariannol

Yn strategaeth ariannol y Grŵp, ceir nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a fwriadwyd i sicrhau bod y Grŵp yn parhau'n sefydliad sy'n sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu buddsoddi yn ei adnoddau er mwyn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i'w ddysgwyr.

| Targed DPA | Gwir Ganlyniad | Cymharu â 2022 | Asesiad o'r Cyflwr Ariannol | Sgôr yn dilyn y Gwiriad Ariannol |
|---|---|---|---|---|
| EBITDA > 4% incwm | 7.0% | 10.2% | Da | 70 |
| Cymhareb asedau cyfredol net > 2 | 2.71 | 4.35 | Rhagorol | 100 |
| Benthyca <15% o'r incwm | 0.1% | 0.3% | Rhagorol | 100 |
| Sgôr yn dilyn yr Asesiad Ariannol | | | Rhagorol | 270 |

Mae'r tri tharged DPA yn y tabl uchod yn cyfrannu at yr asesiad iechyd ariannol a ddiffinnir gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau. Mae hyn yn rhoi arwydd o gryfder ariannol sylfaenol sefydliad. Ar sail canlyniadau ariannol 2022/23, mae cyflwr ariannol y Grŵp yn dal i fod yn "Rhagorol".

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 | Newid<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn | 3,011 | 1,275 | 1,736 |
| Eitem o wariant eithriadol | 193 | 247 | (54) |
| FRS102 – Costau staffio (pensiwn) | 1,990 | 5,884 | (3,894) |
| FRS102 – Costau llogau (pensiwn) | (678) | 567 | (1,245) |
| Cost dibrisiant ac amhariadau | 6,050 | 4,841 | 1,209 |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig | (3,299) | (2,687) | (612) |
| Llog derbyniadwy | (498) | (89) | (409) |
| Llog taladwy | 13 | 71 | (58) |
| Difidend o Ymrwymiad y Grŵp | (524) | (660) | 136 |
| Gwarged yn sgil gwaredu asedau sefydlog | - | (550) | 550 |
| EBITDA'r Coleg | 6,258 | 8,899 | 2,641 |
| EBITDA fel % o'r incwm | 7.0% | 10.2% | |

Mae'r tabl uchod yn dangos sut y cysonwyd canlyniadau'r Coleg â'r gwarged cyn llog, treth, dibrisio ac amorteiddio (EBITDA). Nid yw'n cynnwys canlyniadau unrhyw is-gwmnïau.

Mae'r gostyngiad mewn EBITDA o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn y grantiau COVID-19 wedi'u targedu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Er bod incwm yn gyffredinol wedi codi, cafodd hyn ei wrthbwyso gan gostau uwch, yn enwedig mewn perthynas â chostau staffio lle cafwyd dyfarniad cyflog cyfunol o 6.5% yn ystod y flwyddyn, ynghyd â thaliad untro o 1.5% heb ei gyfuno.

Mae'r gwariant eithriadol yn ymwneud â chost dileu swyddi a chostau Pensiynau Uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ym mis Gorffennaf 2023, cynigiodd y Grŵp raglen diswyddo gwirfoddol a gostiodd £460k.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Grŵp ddosraniad o £524k gan Hyfforddiant Gogledd Cymru (NWT), sef yr elw a wnaeth NWT yn ystod 2021/22. Roedd elw EBITDA NWT ar gyfer 2022/23 yn £515k (2021/22 £608k).

Fel yn y blynyddoedd cynt, effeithiodd yr anwadalrwydd a oedd yn deillio o'r gofynion o ran cyfrifo buddion ôl-gyflogaeth a nodir yn FRS 102 yn sylweddol ar ganlyniadau'r Grŵp. Mae'r gwarged am y flwyddyn yn cynnwys costau anariannol o £1.31m (2022 - £6.45m) yn sgil dwyn cyfrif am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â FRS102. Fodd bynnag, mwy arwyddocaol yw'r newid i'r ffordd yr argymhellir ymdrin ag ased pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar safle'r fantolen. Pe bai wedi cael ei drin yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, byddai'r ased pensiwn wedi cynyddu o £20.4m yn 2021/22 i £40.9m yn 2022/23. Fel gweddill y sector, mae'r Grŵp wedi dilyn y drefn a argymhellir o gydnabod terfyn uchaf yr ased ac felly mae ei werth ar y fantolen wedi gostwng i ddim ond £1.6m. Cydnabyddir y gostyngiad hwn mewn gwerth trwy'r Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn (SOCR).

Mae'r gostyngiad o tua £7m yn y fantolen arian parod ac adnau banc yn ystod y flwyddyn yn ymwneud yn bennaf ag amseru llif arian cyfalaf. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd tua £7.8m yn weddill mewn cyfraniadau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Dyma hefyd achos y gostyngiad yn y gymhareb asedau cyfredol Net o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cadw arian yn bwysig gan fod yn rhaid i'r Grŵp gyfrannu at gostau prosiectau cyfalaf yr ymgymerir â hwy ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Heb wargedion i gynhyrchu arian, ni fyddai'r Grŵp yn gallu buddsoddi yn ei ystâd.

Prif brosiectau cyfalaf y Grŵp yn ystod 2022/23 oedd cwblhau Bloc Safon Uwch a Chanolfan Chwaraeon newydd ar gampws Llangefni ynghyd â chanolfan Beirianneg y Rhyl a phrynu a dechrau ailddatblygu adeilad Tŷ Menai ym Mangor a fydd yn sail i gampws newydd Bangor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd y ddau brosiect olaf yn Waith ar y Gweill yn yr Asedau Sefydlog a byddant yn cael eu cwblhau yn 2023/24. Deil y Grŵp i fuddsoddi'n sylweddol yn ei offer TGCh a'r ystâd yn gyffredinol.

Mae safle prif swyddfa NWT wedi symud yn ystod y flwyddyn ac mae'r elw ar waredu a gydnabyddir yng nghyfrifon y Grŵp yn ymwneud â gwerthu Tŷ Dewi Sant. Mae'r gwariant asedau sefydlog yn y cwmni wedi canolbwyntio'n bennaf ar waith ailddatblygu yn ei brif swyddfa newydd yn Nhŷ Copa, Llandudno.

Yn gyffredinol, mae'r Grŵp wedi cael blwyddyn ariannol lwyddiannus arall ac mewn sefyllfa dda i wynebu'r heriau sy'n debygol o godi yn ystod y blynyddoedd nesaf.

4. <u>Rhanddeiliaid</u>

Grŵp Llandrillo Menai

Rydym wedi sefydlu perthynas ag Awdurdodau Addysg Lleol siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn. Mae'r Grŵp yn parhau i fod yn bartner gweithgar yn y pedair sir a darpara gyrsiau galwedigaethol 14–16 ac ôl-16 i bob un ohonynt.

Yng nghyswllt Addysg Uwch, mae'r Grŵp yn rhan o grŵp cynllunio rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru a ffurfiodd bartneriaeth strategol â Phrifysgol Bangor. Mae'r Ganolfan Brifysgol yng Ngholeg Llandrillo, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, yn bwynt gwerthu o'r radd flaenaf o safbwynt ein darpariaeth Addysg Uwch ac mae strategaeth Addysg Uwch y Grŵp yn parhau i dargedu cynyddu ein darpariaeth. Er bod niferoedd y dysgwyr wedi dioddef yn ystod y tair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i COVID-19 rydym yn dechrau gweld rhai arwyddion fod pethau'n gwella ac wedi ennill contract newydd gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Caiff y cysylltiadau hyn â'r Prifysgolion sy'n bartneriaid i ni effaith gadarnhaol o ran ymateb a bod yn berthnasol i anghenion economi Gogledd Cymru, drwy alluogi myfyrwyr yng Ngogledd Cymru i gael addysg uwch yn nes at adref a/neu at eu gwaith.

Yn ogystal, mae'r Grŵp yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Bwrdd Ymgynghorol Rhaglen yr Ynys Ynni a'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru sy'n cynorthwyo i wireddu cenhadaeth y Grŵp o ran ymgysylltu â chyflogwyr.

5. <u>Datblygiadau i'r Dyfodol</u>

Mae'r heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno cyllideb gytbwys yn debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid ar draws yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a thu hwnt. Bydd hyn yn achosi heriau i'n holl ffrydiau ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith. Bydd y Grŵp yn parhau i weithio gyda'r sector cyfan mewn ymgais i gyfyngu ar effaith y toriadau hyn ar ddysgwyr a gweithwyr.

Mae'r Grŵp wedi llwyddo i ennill nifer o gontractau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a sefydlwyd i gymryd lle'r Cyllid Ewropeaidd sydd wedi dod i ben yn dilyn Brexit. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, nid yw natur tymor cymharol fyr y contractau hyn yn rhoi llawer o sicrwydd cyllido wrth symud ymlaen.

Mae gan NWT gynlluniau i dyfu ei weithgareddau yn Lloegr ac mae bellach wedi ailfrandio'r holl fusnes fel COPA.

Mae'r Grŵp wedi ymestyn ei raglen gyfalaf i rychwantu naw mlynedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn nodi cyfleoedd i wella, gyda'r nod o ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i fyfyrwyr y Grŵp trwy fuddsoddi yn ei ystâd, ei offer a'i staff. Bwriedir bwrw ymlaen a phrosiectau cyfalaf sylweddol ymhob un o'r pedair sir mae'r Grŵp yn gweithredu ynddynt, yn cynnwys y rhai sy'n rhan o Gais Bargen Twf Gogledd Cymru sef Academi Lletygarwch yn Llandrillo-yn-Rhos a Hwb Economi Wledig yng Nglynllifon.

6. <u>Y Risgiau a'r Ansicrwydd Pennaf</u>

Er mwyn gwarchod ei enw da a'i asedau, mae'r Grŵp yn gweithredu system gadarn o ran rheoli risgiau ledled y sefydliad. Ceidw'r Grŵp gofrestr risgiau a adolygir yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Yn y

gofrestr risgiau, nodir y risgiau allweddol, pa mor debygol yw y bydd y risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith posibl a'r camau a gymerwyd/a gymerir i leihau'r risgiau hynny. Defnyddir system sgorio gyson i flaenoriaethu risgiau.

Mae'r rhagolygon economaidd presennol yn parhau'n ansicr gyda chwyddiant a chyfraddau llog yn dal i fod yn uchel. Fel y nodir uchod, gall hyn effeithio ar gyllid y Grŵp yn y dyfodol yn sgil gofynion effeithlonrwydd mewn perthynas â'n cyllid.

Mae niferoedd y dysgwyr yn parhau i gael ei nodi fel risg allweddol i'r Grŵp a'r effaith y gallai hyn ei gael ar ddyraniadau cyllido yn y dyfodol.

## 7. Polisïau ac Amcanion y Trysorlys

Ystyr rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian y Grŵp ynghyd â'i gyfrifon banc a'i drafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'n effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn; a sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

I reoli'r trysorlys, mae gan y Grŵp bolisi neilltuol sy'n pennu mai dim ond gyda banciau uchel eu parch yn y Deyrnas Unedig y gall y Grŵp adneuo ei arian.

Yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd fis Mawrth 2016, gall y Corff Llywodraethu gymeradwyo unrhyw fenthyciad a gymer y sefydliad, gan ystyried iechyd ariannol y Grŵp ar y pryd ac yn y dyfodol.

## 8. Trefniadau o ran Tryloywder

Mae'r gorfforaeth yn cynnal ei busnes drwy gyfrwng nifer o bwyllgorau, fel yr eglurir ar dudalen 18. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Gellir cael cofnodion cyfarfodydd gan:

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy LL28 4HZ

## 9. Perfformiad o ran Talu

Mae'r Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym 1 Tachwedd 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, os nad oes cytundeb i'r gwrthwyneb, dalu eu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod i naill ai dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu i dderbyn yr anfoneb.

Yn unol â dymuniadau'r Bwrdd, sicrha'r Grŵp fod telerau talu ffafriol yn cael eu trafod ar gyfer cyflenwyr lleol a chostau teithio myfyrwyr, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Telir o fewn 10 diwrnod (2022: 12 diwrnod). Ni thalodd y Grŵp logau yn sgil talu'n hwyr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

## 10. Digwyddiadau ers y Fantolen Ddiwethaf

Ni fu digwyddiadau ers y Fantolen Ddiwethaf.

11. Amser Cyfleuster i Gynrychiolwyr Undebau Llafur

***Swyddogion undeb perthnasol***

| **Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod sydd dan sylw** | **Nifer cyfystyr â gweithwyr llawn amser** |
|---|---|
| 25 | 21.49 |

***Canran yr amser cyfleuster***

| **% yr Amser** | **Nifer y gweithwyr** |
|---|---|
| 0 | 0 |
| 1-50 | 25 |
| 51-99 | 0 |
| 100 | 0 |

***Canran y bil cyflogau sy'n amser cyfleuster***

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cost yr amser cyfleuster** | £30,266 |
| **Cyfanswm y bil cyflogau** | £56,866,000* |
| **Canran cyfanswm y bil cyflogau sy'n amser cyfleuster (Cyfanswm cost yr amser cyfleuster / cyfanswm y bil cyflogau) * 100** | 0.053% |

* Y gost heb y newidiadau i daliadau pensiwn budd diffiniedig FRS102 a chostau ad-drefnu eithriadol.

***Gweithgareddau undebau llafur y talwyd amdanynt***

| | |
|---|---|
| **Yr amser a dreulir yn gwneud gweithgareddau undebau llafur, fel canran o gyfanswm yr amser cyfleuster y talwyd amdano** (cyfanswm yr oriau y treuliodd swyddogion undebau llafur perthnasol yn gwneud gwaith undebau llafur yn ystod y cyfnod sydd dan sylw / cyfanswm yr amser cyfleuster y talwyd amdano) x 100 | 100% |

12. Budd y Cyhoedd

Mae'r Grŵp yn elusen a eithriwyd o dan Ran 3 Deddf Elusennau 2011 ac fe'i rheoleiddir gan Lywodraeth Cymru fel prif reoleiddiwr Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru. Ar dudalen 18, rhestrir aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen. Wrth bennu ac adolygu amcanion strategol y Coleg, rhoddodd y Corff Llywodraethu sylw dyledus i arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd, yn enwedig yr arweiniad ategol ar hyrwyddo addysg.

Wrth wireddu ei genhadaeth, darpara'r Coleg fuddion amlwg i'r cyhoedd drwy hyrwyddo addysg i 18,725 o fyfyrwyr, yn cynnwys 763 myfyriwr sydd ag anghenion mawr. Darpara'r coleg gyrsiau am ddim i bobl ifanc, i bobl ddi-waith ac i oedolion sy'n dilyn cyrsiau Saesneg a mathemateg. Addasa'r coleg ei gyrsiau i fodloni gofynion cyflogwyr lleol a darpara hyfforddiant i brentisiaid. Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar ei gyrsiau ac i ganfod cyrsiau addas i gynifer o fyfyrwyr â phosibl, beth bynnag fo'u cefndir addysgol.

13. Cyfle Cyfartal a Chyflogi Pobl Anabl

Mae'r Grŵp yn cydnabod gwerth pob aelod o'i gymuned. Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth addysgol sy'n rhoi cyfle cyfartal ac a fwriadwyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Ceisia hyrwyddo cydraddoldeb o ran mynediad, cynhwysiad cymdeithasol, hybu ehangu cyfranogiad a sicrhau cydraddoldeb mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'r Grŵp wedi mynd ati i ddatblygu set gynhwysfawr o bolisïau i hybu cydraddoldeb, a thrwy ennill Nod Siarter a statws Buddsoddwyr mewn Pobl, fe'i cydnabuwyd yn allanol yn gyflogwr sy'n cynnig cyfle cyfartal. Lluniodd y Grŵp ddatganiad ynghylch anabledd, ac mae gan y Grŵp hawl i ddefnyddio'r symbol "Yn gadarn o blaid pobl anabl" yn ei hysbysebion am swyddi, ar ei ffurflenni cais ac yn ei lenyddiaeth recriwtio. Mae'r Grŵp yn meddu ar y symbol "Dwy Dic" – yn gadarn o blaid pobl anabl.

Nod Polisi Iaith Gymraeg y Grŵp yw bodloni'r gofynion a nodir yn Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

14. Datganiad ynghylch Anabledd

Ceisia'r Grŵp gyflawni'r amcanion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a buddsodda'n helaeth mewn darlithwyr arbenigol a staff cymorth er mwyn cefnogi myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau.

15. Trethiant

Nid oes raid i'r Grŵp dalu treth gorfforaethol ar ei weithgareddau, ond mae gofyn iddo dalu Treth ar Werth (TAW). I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y polisi cyfrifyddu mewn perthynas â threthiant ar dudalen 41.

16. Cynnwys Staff a Myfyrwyr

Ystyria'r Grŵp fod cyfathrebu da'n hanfodol er mwyn rheoli'r colegau. Caiff staff a myfyrwyr eu cynnwys yn llawn ym mhrif bwyllgorau'r Grŵp, ac fe'u cynrychiolir ar Fwrdd y Gorfforaeth. Rhoddir cryn gyhoeddusrwydd i'r Drefn Gwyno a'r Drefn Datrys Anghydfod, ac mae gan y Grŵp 'Siarter Myfyrwyr' a 'Pholisi Chwythu'r Chwiban' sydd wedi ennill eu plwyf.

Caiff y myfyrwyr eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd ac maent yn rhan o'r timau adolygu cyrsiau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda staff sy'n ymwneud â rheolaeth gorfforaethol. Cafodd effeithiolrwydd cyffredinol y sefydliad ei gydnabod yn eglur mewn asesiadau allanol a gynhaliwyd mewn perthynas ag ansawdd.

17. Aelodau'r Bwrdd

Mae Bwrdd y Grŵp yn gweithredu strwythur Pwyllgorau, gan gynnwys Cynghorau Colegol lleol i ehangu perchnogaeth gweithgareddau'r Grŵp. Sefydlwyd Pwyllgor Cadeiryddion gweithredol i hyrwyddo'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â bod yn agored ac yn atebol. Cedwir Cofrestr o Fuddiannau holl aelodau'r Bwrdd.

18. Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr Annibynnol

Cadarnha'r aelodau a oedd yn dal swyddi ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn nad oes, hyd y gwyddant, unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad nad yw archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i ofalu bod archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Aelodau:**

| CYFENW: | ENW CYNTAF: | TYMOR | STATWS Y PENODIAD<br>STATWS: | TYMOR YN DOD I BEN: | Y PWYLLGORAU YR OEDDYNT YN AELODAU OHONYNT: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Y Bwrdd | Cadeirydd dion | PCA / BRhC | PAR | PCMS |
| Adams | Andrea | 4 | Deunyddiau/Adnoddau Addysgu. | 03/24 | 1 | | | | 1 |
| Bichan | Roy | 4 | Cyn-gadeirydd | 03/25 | 1 | 1 | 1 | | |
| Billcliff | Andy | 4 | | 03/26 | 1 | | | 1 | |
| Evans | Dafydd | Swyddog Gweithredol | Y PRIF WEITHREDWR | - | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Evans | Dilwyn | 4 | Cadeirydd PCA | 03/26 | 1 | 1 | 1 | | |
| Jones (C) | Griff | 4 | Cadeirydd y Bwrdd | 03/24 | 1 | 1 | 1 | | |
| Jones | Gwyn | 4 | Cadeirydd PCMS | 06/24 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Lavin | Peter | 4 | Cadeirydd PAR | 03/24 | 1 | 1 | | 1 | |
| Morgans | Chris | 4 | | 12/26 | 1 | | | 1 | |
| Pierce-Williams | John | 4 | Bu farw | 05.23 | 1 | | 1 | | 1 |
| Pugh | Hedd | 4 | | 03/24 | 1 | | 1 | | |
| Pryor | Marion | 4 | | 03/27 | 1 | | | 1 | |
| Tully | Carol | 4 | | 06/24 | 1 | | 1 | | |
| Thomas | Alun | 4 | Is-gadeirydd a Chadeirydd NWT | 03/24 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Williams Price | Bethan | 4 | | 09/26 | 1 | | | | 1 |
| Woosnam | Brian | 4 | Aelod staff nad yw'n addysgu | 10/25 | 1 | | | | |
| Hadrill | Jordan | 1 | Llywydd Undeb y Myfyrwyr | 07/23 | 1 | | | | 1 |
| Fletcher | William | 1 | Swyddog AU | 07/23 | 1 | | | | 1 |

*Allwedd:*

PAR – Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau PCA – Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau BRhC - Y Bwrdd Rhaglenni Cyfalaf PCMS – Y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau PC – Pwyllgor y Cadeiryddion Cad. – Cadeirydd Is-gad. – Is-gadeirydd PW - Prif Weithredwr

Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar a llofnodwyd ar eu rhan gan:



**Dr Griffith Wyn Jones - Cadeirydd**

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol

Darperir y datganiad a ganlyn er mwyn galluogi darllenwyr adroddiad blynyddol a chyfrifon y Grŵp i ddeall ei strwythur llywodraethol a chyfreithiol yn well. Cwmpasa'r datganiad hwn y cyfnod o 1 Awst 2022 hyd 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Ym marn y Llywodraethwyr, cydymffurfia'r Grŵp â holl ddarpariaethau priodol y Cod o ran Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (2016) lle maent yn berthnasol i'r Sector Addysg Bellach.

Mae model llywodraethu'r Grŵp wedi newid yn sylweddol ers mis Mawrth 2020, gyda mwyafrif y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein. Serch hynny, parhawyd i lywodraethu'n effeithiol, mewn modd ymroddedig a chefnogol.

## Bwrdd y Gorfforaeth

Mae Bwrdd Corfforaeth y Grŵp yn cynnwys aelodau annibynnol yn ogystal â chynrychiolwyr o blith y staff a'r myfyrwyr, a Phrif Weithredwr y Grŵp. Mae cyfansoddiad Bwrdd y Gorfforaeth i'w weld ar dudalen 18. Cyfrifoldeb Bwrdd y Gorfforaeth yw cynnig barn annibynnol ar faterion sy'n ymwneud â strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad. Mae elfen anweithredol ac annibynnol gref i Fwrdd y Gorfforaeth, ac nid oes unrhyw unigolyn na grŵp yn rheoli'r broses gwneud penderfyniadau. Ystyria Bwrdd y Gorfforaeth fod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac nad oes ganddynt fusnes na pherthynas arall a allai amharu'n sylweddol ar y modd y maent yn defnyddio eu barn annibynnol.

Gall pob llywodraethwr gymryd cyngor proffesiynol annibynnol ar gost y Grŵp er mwyn hyrwyddo eu dyletswyddau ac mae ganddynt hawl i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth, sy'n atebol i Fwrdd y Gorfforaeth am sicrhau y cydymffurfir â'r holl drefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodi, gwerthuso, a diswyddo'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth oll yn faterion i Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfanrwydd. Gan fod rolau'r Cadeirydd, Prif Weithredwr y Grŵp a’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth yn wahanol, mae rhaniad clir yn y cyfrifoldebau.

Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn yn arferol (a chynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Digwyddiad Cynllunio Strategol yn ogystal) ac mae wedi sefydlu pedwar is-bwyllgor ffurfiol: y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau, y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a Phwyllgor y Cadeiryddion. Mae gan bob is-bwyllgor gylch gorchwyl ffurfiol ac adroddant i Fwrdd y Gorfforaeth. Dosberthir agendâu, papurau ac adroddiadau i'r llywodraethwyr mewn da bryd cyn cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth. Darperir gwybodaeth ar sail ad-hoc.
Caiff Bwrdd y Gorfforaeth wybodaeth reolaidd ac amserol am berfformiad ariannol cyffredinol y Grŵp, ynghyd â gwybodaeth arall am bethau fel perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion yn ymwneud ag ansawdd, a materion sy'n gysylltiedig â phersonél, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd.

Yn ogystal â'r is-bwyllgorau a nodir uchod, mae saith Cyngor Colegol Lleol yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd y Gorfforaeth.

## Penodi Aelodau ar Fwrdd y Gorfforaeth

Mae unrhyw benodiadau newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'w ystyried gan y Gorfforaeth yn ei chyfanrwydd. Bydd Pwyllgor y Cadeiryddion yn cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ynghylch recriwtio aelodau newydd, yn ystyried y cyfansoddiad a chydbwysedd Bwrdd y Gorfforaeth, ac yn datblygu gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi, sefydlu a datblygu aelodau Bwrdd y Gorfforaeth.

Yn arferol, penodir aelodau'r Gorfforaeth ar sail dreigl am gyfnod o hyd at bedair blynedd (y gellir ei ymestyn yn dilyn adolygiad).

Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau bedair gwaith yn y flwyddyn 2022-23. Gweithreda'r pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'n cynnwys pedwar aelod (ac eithrio Prif Weithredwr y Grŵp a Chadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth). Gwahoddir archwilwyr allanol a mewnol y Grŵp i gyflwyno adroddiadau ac i fynychu'r cyfarfodydd, ac mae ganddynt hawl i gysylltu â'r Pwyllgor i drafod yn annibynnol, heb i reolwyr y Grŵp fod yn bresennol. Er bod uwch reolwyr yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn ôl y galw, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau hefyd yn cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ynghylch penodi archwilwyr mewnol ac allanol ac ynghylch talu iddynt am waith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn cytuno ar raglen flynyddol yr archwilwyr mewnol sy'n darparu asesiadau annibynnol ar bob agwedd ar systemau'r Grŵp o ran rheoli mewnol, rheoli risgiau, rheolaethau a phrosesau llywodraethu. Bydd yr archwilwyr yn cyflwyno adroddiadau ar eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio cytunedig ac yn rheolaidd bydd archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi cael eu rhoi ar waith.

O dro i dro, bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r rheolwyr gyflwyno adroddiadau hunan-archwilio ar agweddau ar system rheoli mewnol y Grŵp. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau perthnasol gan yr Adran Addysg a Sgiliau, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyrff eraill pan fyddant yn effeithio ar fusnes y Grŵp. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n monitro cynnydd y rheolwyr o ran gweithredu argymhellion yr archwilwyr.

Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau bedair gwaith yn ystod 2022-23. Mae'r pwyllgor yn cynnwys naw aelod, yn cynnwys Prif Weithredwr y Grŵp ac aelodau eraill o'r Uwch Dîm Rheoli. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw adolygu a herio perfformiad a strategaeth ariannol y Grŵp, gan gadw golwg ar adnoddau a pholisïau staffio, gwaith yr ystadau, materion yn ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, Dysgu Seiliedig ar Waith a gweithgareddau masnachol eraill. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyfeirio unrhyw risgiau a nodir yn y meysydd hyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau.

Y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau

Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau yn cynnwys wyth aelod, yn cynnwys Prif Weithredwr y Grŵp, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Swyddog Addysg Uwch. Mae'n adolygu ac yn rhoi cyngor ar brosesau cynllunio cwricwlwm y Grŵp, yn cadw golwg ar ansawdd darpariaeth y Grŵp ac ar sut mae'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae hefyd yn gyfrifol am dderbyn arolygon Llais y Dysgwr er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn parhau i ddarparu'r amgylchedd a'r adnoddau gorau sydd ar gael i'w ddysgwyr. Eto, mae gan y Pwyllgor hwn swyddogaeth o ran cyfeirio unrhyw risgiau a nodwyd yn y meysydd hyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Cyfarfu'r pwyllgor wyneb yn wyneb ddwywaith gyda phecyn gwybodaeth pellach yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor yn lle cyfarfod ym mis Mehefin 2023 oherwydd amgylchiadau personol.

Pwyllgor y Cadeiryddion

Cyfarfu Pwyllgor y Cadeiryddion unwaith yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd ychydig o argymhellion i Fwrdd y Gorfforaeth parthed taliadau i ddeiliaid uwch swyddi yn sgil cynnal proses recriwtio Deiliad Uwch Swydd yn ystod y flwyddyn. Sefydlwyd proses ffurfiol o osod amcanion ar gyfer monitro perfformiad. Mae arolygon annibynnol ynghylch lefelau taliadau cenedlaethol i ddeiliaid uwch swyddi hefyd yn sail i argymhellion y Pwyllgor. Mae manylion y taliadau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 i'w gweld yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Rheoli Mewnol

*Cynllunio strategol a rheoli ariannol*

Mae'r Grŵp wedi sefydlu proses gynllunio strategol gadarn. Sicrha'r broses hon fod Bwrdd y Gorfforaeth, y Tîm Strategol a'r Tîm Rheoli'n cael eu cynnwys, ac yr ymgynghorir â'r holl staff, wrth ddatblygu'r cynllun strategol. Y Tîm Strategol Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cymeradwyo'r cynllun strategol terfynol ac yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion strategol yn ystod y flwyddyn.

Llunnir cyllideb a rhagolygon ariannol y Grŵp ar y cyd â'r cynllun strategol. Bydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n argymell i Fwrdd y Gorfforaeth gyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol y Grŵp a bydd yn monitro'r perfformiad mewn perthynas â'r cyllidebau a gymeradwywyd. Darperir cyfrifon rheoli misol manwl i ddeiliaid cyllidebau a chaiff y rhain eu hadolygu gan uwch reolwyr. Mae'r Grŵp wedi sefydlu rheoliadau ariannol manwl a lefelau awdurdod dirprwyedig sy'n darparu fframwaith i reoli arian yn y Grŵp.

*Hyd a lled y cyfrifoldeb*

Yn y pen draw, Bwrdd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am system rheoli mewnol y Grŵp ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, cynlluniwyd system o'r fath i reoli yn hytrach nag i ddileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion y busnes, a sicrwydd rhesymol yn unig, yn hytrach na sicrwydd absoliwt, all system o'r fath ei ddarparu rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi dirprwyo i Brif Weithredwr y Grŵp, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, y cyfrifoldeb o gadw system rheoli mewnol gadarn sy'n gymorth i'r Grŵp gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, gan ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau y mae ef yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i Fwrdd y Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu ddiffygion perthnasol yn y drefn rheoli mewnol.

*Diben y system rheoli mewnol*

Cynlluniwyd y system rheoli mewnol i reoli risgiau hyd at lefel resymol yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond darparu sicrwydd o effeithiolrwydd rhesymol, nid effeithiolrwydd absoliwt. Mae'r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Grŵp, i bwyso a mesur pa mor debygol yw'r risgiau o gael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Bu'r system rheoli mewnol ar waith yng Ngrŵp

Llandrillo Menai drwy'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

*Y gallu i ymdrin â risgiau*

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi adolygu'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, ynghyd â'r rheolaethau gweithredu, y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau cydymffurfio a roddwyd ar waith i leihau'r risgiau hynny. Mae Bwrdd y Gorfforaeth o'r farn fod proses barhaus, ffurfiol o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Sefydliad wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Adolyga Bwrdd y Gorfforaeth y broses hon yn rheolaidd.

*Y fframwaith risgiau a rheoli*

Mae'r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar fframwaith sy'n darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch rheoli, gweithdrefnau gweinyddol, yn cynnwys neilltuo dyletswyddau, a system mewn perthynas â dirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr, ynghyd â chyllideb flynyddol, a adolygir ac a gytunir gan Fwrdd y Gorfforaeth;
- Adolygiadau rheolaidd gan Fwrdd y Gorfforaeth o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, sy'n dangos y perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiadau eraill;
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir; a
- Mabwysiadu disgyblaethau ffurfiol i reoli prosiectau, fel y bo'n briodol.

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu'n unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, a seilir y cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwnnw. Cadarnheir y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol gan Fwrdd y Gorfforaeth ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Yn flynyddol, bydd yr archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd y Gorfforaeth ar weithgaredd archwilio mewnol y sefydliad. Fel rheol, mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, rheolaethau a phrosesau'r Grŵp.

*Adolygu effeithiolrwydd*

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y Grŵp yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Seilir ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol ar:

- waith yr archwilwyr mewnol;
- gwaith uwch reolwyr y Grŵp sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol;
- sylwadau a wnaed gan archwilwyr datganiadau ariannol y Grŵp ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Cafodd Prif Weithredwr y Grŵp wybod gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, beth yw goblygiadau canlyniad ei adolygiad ar effeithiolrwydd y system rheoli

mewnol. Mae prosesau ansawdd y Grŵp yn cynnwys cynllun i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau bod trefn ar waith i wella'r system yn barhaus.

Derbynia'r Tîm Strategol/yr Uwch Dîm Rheoli adroddiadau sy'n nodi'r dangosyddion o ran perfformiad allweddol a risgiau ac ystyria'r materion rheoli posibl a dynnwyd i'w sylw gan y peirianwaith rhybudd cynnar sydd wedi'i ymgorffori yn yr adrannau ac sy'n cael ei atgyfnerthu drwy hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a system gofnodi 4Risk y Grŵp. Mae'r Tîm Strategol/yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau, gan yr archwilwyr mewnol. Yn y maes hwn, cyfyngir rôl y Pwyllgor Archwilio a Risgiau i adolygiadau lefel uchel o'r trefniadau rheoli mewnol. Mae ystyried risgiau a'r drefn reoli'n eitem reolaidd ar agenda'r Gorfforaeth, a derbynia'r Gorfforaeth adroddiadau ar y rhain gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau.

Mae'r pwyslais ar gael y radd berthnasol o sicrwydd ac nid ar adrodd ar eithriadau yn unig. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd fis Rhagfyr 2023, cynhaliodd Bwrdd y Gorfforaeth yr asesiad blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 drwy ystyried dogfennau gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau a'r archwilwyr mewnol, gan ystyried yr hyn a ddigwyddodd ers 31 Gorffennaf 2023.

Ar sail cyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Bwrdd y Gorfforaeth o'r farn fod gan y Grŵp fframwaith llywodraethu digonol ac effeithiol i lywodraethu, rheoli risgiau a rheoli fel arall a'i fod wedi cyflawni ei gyfrifoldeb statudol o ran "defnyddio adnoddau mewn dull effeithiol ac effeithlon, hyfywedd y sefydliad a'r corff a diogelu eu hasedau".

Busnes hyfyw

Wedi gwneud ymholiadau priodol, ystyria'r Gorfforaeth fod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Oherwydd hyn, parheir i baratoi'r datganiadau ariannol ar y sail bod y busnes yn hyfyw.

**Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar a llofnodwyd ar eu rhan gan:**





**Dr Griffith Wyn Jones** **Mr Dafydd Evans**

**Cadeirydd Prif Weithredwr y Grŵp**

Datganiad ynghylch Cysondeb, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth

Fel swyddog cyfrifyddu rwy'n cadarnhau bod y Gorfforaeth, yn unol â'r memorandwm ariannol a'r contractau a gytunwyd rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru, wedi ystyried ei chyfrifoldeb dros hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw anghysondebau, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio sy'n faterol berthnasol o ran y telerau a'r amodau cyllido.

Rwy'n cadarnhau, ar ran y Gorfforaeth a hyd eithaf fy ngwybodaeth, y gallaf, drwy archwilio'n briodol, ganfod anghysondeb perthnasol neu ddefnydd amhriodol o gyllid gan y Coleg, neu ddiffyg cydymffurfio perthnasol â'r contractau a'r cytundebau grantiau cyllido a gytunwyd rhwng y Gorfforaeth a Llywodraeth Cymru neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall.

Rwy'n cadarnhau na chanfuwyd hyd yma unrhyw anghysondebau, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio cyllidol sy'n faterol berthnasol. Os gwelir achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, rhoir gwybod amdanynt i Lywodraeth Cymru.

**Prif Weithredwr / Swyddog Cyfrifyddu'r Grŵp**

**Datganiad Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Rwy'n cadarnhau, ar ran y gorfforaeth, fod y swyddog cyfrifyddu wedi trafod y Datganiad ynghylch Cysondeb, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth gyda'r Bwrdd ac rwy'n fodlon ei fod yn faterol gywir.

**Dr Griffith Wyn Jones**
**Cadeirydd**

## Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i aelodau'r Gorfforaeth (Bwrdd y Llywodraethwyr) gyflwyno datganiadau ariannol a archwiliwyd.

Yn unol â thelerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r Grŵp, mae gofyn i'r Gorfforaeth, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredol ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r Datganiad ynghylch Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, y Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu i Golegau Addysg Bellach yng Nghymru a'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'i warged/diffyg incwm o'i gymharu â'i wariant am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i'r Corff Llywodraethu:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn modd cyson
- gwneud dyfarniadau a llunio amcangyfrifon rhesymol a darbodus
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig, yn unol ag unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol
- Asesu a yw'r coleg yn fusnes hyfyw, gan nodi'r prif ragdybiaethau, y cymwysterau neu'r camau lliniaru sy'n ategu hynny, fel y bo'n briodol (a ddylai gyd-fynd â'r datgeliadau eraill sydd yn y cyfrifon ac yn adroddiad yr archwilwyr)
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd y Coleg yn parhau i weithredu

Yn ogystal, yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) mae gofyn i'r Gorfforaeth baratoi Adroddiad Aelodau sy'n disgrifio'r hyn a geisia ei wneud a sut y bwriada wneud hynny, yn cynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a gweinyddol y Grŵp. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n dangos, yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Grŵp ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â'r deddfau perthnasol, yn cynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu ei asedau ac atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y Grŵp a chywirdeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a wna'r archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd mewn perthynas â'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno gyntaf ar y wefan. Gall y deddfau sy'n rheoli cyflwyno a dosbarthu datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig wahaniaethu i'r deddfau mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio'n unol â'r hyn y'u bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Maent yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, a chan unrhyw gronfa gyhoeddus arall, ond yn cael ei ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Ariannol a gytunwyd â Llywodraeth Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau eraill a ragnodir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw gorff cyllido cyhoeddus arall.

Rhaid i'r aelodau sicrhau bod mesurau rheoli ariannol a rheolaethol digonol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Yn ychwanegol, mae Aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau a gwariant y Coleg yn cael eu rheoli'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, fel nad yw'r manteision a ddylai ddeillio o ddefnyddio cyllid cyhoeddus a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill yn cael eu peryglu.

**Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth a llofnodwyd ar eu rhan gan:**



**Dr Griffith Wyn Jones**
**Cadeirydd** **Dyddiad: 14 Rhagfyr 2023**

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Gorfforaeth Grŵp Llandrillo Menai

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp Llandrillo Menai (y "Coleg") a'i is-gwmnïau ("y Grŵp") am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, gan gynnwys y Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch incwm cynhwysfawr, y mantolenni Cyfunol a Cholegol, y Datganiad Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd, y datganiad Cyfunol ynghylch llif arian a'r nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon" (yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig) a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2022-23 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023, ac o warged incwm y Grŵp a'r Coleg yn erbyn ei wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon 2022-2-23 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Ein barn ar faterion eraill a ragnodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru**

Yn ein barn ni:

- ym mhob modd perthnasol, mae'r arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill, o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Coleg i ddibenion penodol, wedi'u defnyddio'n briodol i'r dibenion hynny ac, os oedd hynny'n briodol, wedi'u rheoli'n unol â'r holl ddeddfau perthnasol; ac
- ym mhob modd perthnasol, mae'r incwm wedi'i ddefnyddio'n unol â Memorandwm Ariannol a gytunwyd â Llywodraeth Cymru.

**Sail ein barn**

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol mewn perthynas ag Archwilio (y DU) ("ISAs (y DU)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir rhagor ar ein cyfrifoldebau yn unol â'r safonau hynny yn yr adran yn ein hadroddiad sy'n sôn am gyfrifoldebau'r Archwilwyr o ran archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y Grŵp a'r Coleg yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth a welsom wrth archwilio'n ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail i'n barn.

**Casgliadau mewn perthynas â busnes hyfyw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad fod defnydd y llywodraethwyr o gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaethom, ni chanfyddom unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth ar allu'r grŵp neu'r coleg i barhau'n fusnes hyfyw am o leiaf ddeuddeng mis o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau'r ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnynt, sydd yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol. Y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym yn rhoi unrhyw fath o sicrwydd yn ei chylch.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth honno'n faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn sgil archwilio, neu a yw'n ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan yn faterol fel arall. Os canfyddwn anghysondebau neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn deillio ar gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, fod camddatganiad perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â hyn.

**Materion y mae gofyn i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion a ganlyn y mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn i ni roi gwybod i chi amdanynt, os bydd y canlynol yn berthnasol yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau Corfforaeth Grŵp Llandrillo Menai**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth, fel y'i nodir ar dudalennau 25 a 26, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am ei bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Gorfforaeth i allu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r Coleg i barhau'n fusnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a chan ddefnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw, oni bai fod y Gorfforaeth yn bwriadu dirwyn y Grŵp neu'r Coleg i ben neu beidio â gweithredu, neu os nad oes ganddi unrhyw ddewis realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os yw'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y gallai defnyddwyr eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**Y graddau yr ystyrid bod yr archwiliad yn gallu canfod anghysonderau, yn cynnwys twyll**

Anghysonderau yw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Amcanion ein harchwiliad yn cael digon o dystiolaeth briodol o gydymffurfio â deddfau a rheoliadau a gaiff effaith uniongyrchol ar y symiau a'r datgeliadau sydd yn y datganiadau ariannol, dilyn gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau eraill a all gael effaith faterol berthnasol ar y datganiadau ariannol, ac ymateb yn briodol i achosion a nodir neu a amheuir nad ydynt yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gam-ddatgan y datganiadau ariannol mewn modd materol berthnasol, cael digon o dystiolaeth briodol ynghylch y risgiau a aseswyd o ran cam-ddatgan materol berthnasol oherwydd twyll drwy lunio a rhoi ymatebion priodol ar waith ac ymateb yn briodol i dwyll neu amheuaeth o dwyll a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rheolwyr yn bennaf, dan oruchwyliaeth y llywodraethwyr, yw sicrhau bod gweithrediadau'r sefydliad yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau deddfau a rheoliadau ac er mwyn atal a chanfod twyll.

Wrth ganfod ac asesu risgiau o gamddatganiadau materol oherwydd anghysondebau, yn cynnwys twyll, gwnaeth y tîm sy'n ymwneud ag archwilio yn y Grŵp:

- ddod i ddeall natur y sector, yn cynnwys y fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Grŵp a'r Coleg yn gweithio o'u mewn a sut y cydymffurfia'r Grŵp a'r Coleg â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol hynny;
- gofyn i'r rheolwyr, a'r llywodraethwyr, am y modd yr ânt hwy ati i ganfod ac asesu risgiau mewn perthynas ag anghysonderau, yn cynnwys achosion o dwyll gwirioneddol y gwyddys amdanynt, neu a amheuir neu a honnir;
- trafod materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd, gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriwn mai'r deddfau a'r rheoliadau pwysicaf sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw FRS 102, Y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ym maes AB ac AU a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Golegau Addysg Bellach yng Nghymru ar gyfer 2022-23 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith berthnasol ar y datganiad ariannol, a oedd yn cynnwys adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol.

Y deddfau a'r rheoliadau pwysicaf sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw'r rhai sy'n ymwneud â'r Fframwaith Arolygu Addysg yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Cadw Plant yn Ddiogel yn Neddf Addysg 2002, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Gwnaethom ddilyn gweithdrefnau archwilio er mwyn gofyn i'r rheolwyr, a'r llywodraethwyr, a yw'r

Grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau hyn a gwnaethom edrych ar ohebiaeth ag awdurdodau trwyddedu a rheoleiddio.

Canfu tîm archwilio'r Grŵp y risg bod y rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau yn y meysydd lle'r oedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatganiadau materol berthnasol oherwydd twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a ddilynwyd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i brofi cofnodion a ysgrifennwyd â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso sail resymegol y busnes mewn perthynas â thrafodion sylweddol, anarferol a thrafodion a wnaed y tu allan i'r busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Paratowyd yr adroddiad hwn i'r Gorfforaeth, fel corff, yn unig a hynny'n unol â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'n llythyr ymrwymo dyddiedig 10 Mehefin 2019. Gwnaed y gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i'r Gorfforaeth, fel corff, ynghylch y materion yr ydym wedi ymrwymo i ddatgan yn eu cylch mewn adroddiad archwilio, ac nid i unrhyw ddiben arall. Hyd y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar ran unrhyw un ac eithrio'r Gorfforaeth, fel corff, am ein gwaith archwilio ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am unrhyw farn yr ydym wedi dod iddi.

RSM UK Audit LLP
Cyfrifwyr Siartredig
One City Place
Queens Road
Caer
CH1 3BQ
Dyddiad

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 GRŴP £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 Coleg £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 GRŴP £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 Coleg £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | | |
| Grantiau gan gyrff cyllido | 2 | 75,918 | 71,846 | 76,550 | 72,622 |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysgol | 3 | 4,103 | 4,103 | 4,641 | 4,641 |
| Incwm arall | 4 | 12,301 | 12,271 | 9,270 | 9,240 |
| Incwm o waddolion a buddsoddiadau | 5 | 506 | 1,023 | 89 | 749 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | 92,828 | 89,243 | 90,550 | 87,252 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staffio cyn costau FRS102 | 7 | 59,399 | 57,059 | 55,423 | 53,167 |
| Costau FRS102 | | 1,990 | 1,990 | 5,884 | 5,884 |
| Cyfanswm y costau staffio yn cynnwys costau FRS102 | | 61,389 | 59,049 | 61,306 | 59,051 |
| Treuliau gweithredol eraill | 8 | 23,123 | 21,796 | 23,181 | 21,997 |
| Dibrisiant ac Amhariad | 11 | 6,115 | 6,052 | 4,881 | 4,841 |
| Amorteiddiad | 10 | 115 | - | 115 | - |
| Llogau a chostau ariannol eraill cyn FRS102 | 9 | 13 | 13 | 71 | 71 |
| FRS102 llog net (incwm) / costau net | | (678) | (678) | 567 | 567 |
| Llog a chyllid (incwm) / costau eraill yn cynnwys FRS102 | | (665) | (665) | 638 | 638 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | 90,077 | 86,232 | 90,121 | 86,527 |
| **Gwarged cyn enillion a cholledion eraill cyn treth** | | 2,751 | 3,011 | 429 | 725 |
| **Gwarged yn sgil gwaredu asedau sefydlog** | | 133 | - | 550 | 550 |
| **Gwarged cyn treth** | | 2,884 | 3,011 | 979 | 1,275 |

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 (parhad)

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 GRŴP £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 Coleg £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 GRŴP £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 Coleg £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwarged cyn treth** | 2,884 | 3,011 | 979 | 1,275 |
| Trethiant | - | - | - | - |
| **Gwarged am y flwyddyn** | 2,884 | 3,011 | 979 | 1,275 |
| Ailfesur gwerth net asedau pensiwn wedi'u diffinio | (17,412) | (17,412) | 53,733 | 53,733 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr / (gwariant) am y flwyddyn** | (14,528) | (14,401) | 54,712 | 55,008 |

# Datganiad Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

| | Y Cyfrif Incwm a Gwariant | Y gronfa ailbrisio | Cyfanswm heb gynnwys cyfrannau lleiafrifol | Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans y Grŵp ar 1 Awst 2022** | 75,637 | 8,073 | 83,710 | 83,710 |
| Gwarged am y flwyddyn | 2,884 | - | 2,884 | 2,884 |
| Colled actiwarïaidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | (17,412) | - | (17,412) | (17,412) |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant | 308 | (308) | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (14,220) | (308) | (14,528) | (14,528) |
| **Y Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **61,417** | **7,765** | **69,182** | **69,182** |
| **Balans y Grŵp ar 1 Awst 2021** | 20,618 | 8,381 | 28,999 | 28,999 |
| Gwarged am y flwyddyn | 979 | - | 979 | 979 |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 53,733 | - | 53,733 | 53,733 |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant | 308 | (308) | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 55,020 | (308) | 54,712 | 54,712 |
| **Y Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **75,637** | **8,073** | **83,710** | **83,710** |
| **Balans y Coleg ar 1 Awst 2022** | 75,878 | 8,073 | 83,951 | 83,951 |
| Gwarged am y flwyddyn | 3,011 | - | 3,011 | 3,011 |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | (17,412) | - | (17,412) | (17,412) |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant | 308 | (308) | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (14,093) | (308) | (14,401) | (14,401) |
| **Y Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **61,785** | **7,765** | **69,550** | **69,550** |
| **Balans y Coleg ar 1 Awst 2021** | 20,562 | 8,381 | 28,943 | 28,943 |
| Gwarged am y flwyddyn | 1,275 | - | 1,275 | 1,275 |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 53,733 | - | 53,733 | 53,733 |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant | 308 | (308) | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 55,316 | (308) | 55,008 | 55,008 |
| **Y Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **75,878** | **8,073** | **83,951** | **83,951** |

Grŵp Llandrillo Menai

## Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023

| | Nodiadau | Grŵp 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | Grŵp 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol ac ewyllys da | 10 | 0 | 0 | 116 | 0 |
| Asedau sefydlog diriaethol | 11 | 114,508 | 114,328 | 96,807 | 96,453 |
| Buddsoddiadau | 12 | 56 | 1,862 | 56 | 1,862 |
| | | 114,564 | 116,190 | 96,979 | 98,315 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 15 | 695 | 695 | 680 | 680 |
| Dyledwyr masnachol a symiau eraill sy'n dderbyniadw | 14 | 7,736 | 7,199 | 6,761 | 6,517 |
| Buddsoddiadau | 16 | 3,000 | 3,000 | 3,544 | 3,544 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo | | 24,123 | 23,113 | 30,670 | 29,655 |
| | | 35,554 | 34,007 | 41,655 | 40,396 |
| **Llai: Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | 17 | (16,842) | (16,554) | (13,918) | (13,754) |
| **Asedau cyfredol net** | | 18,712 | 17,453 | 27,737 | 26,642 |
| **Cyfanswm yr asedau, llai rhwymedigaethau cyfred** | | 133,276 | 133,643 | 124,716 | 124,957 |
| Llai: Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn | 18,19 | (63,083) | (63,081) | (58,204) | (58,204) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o ran buddion pensiwn wedi'u diffir | 22 | 1,635 | 1,635 | 20,359 | 20,359 |
| Darpariaethau eraill | 20 | (2,646) | (2,646) | (3,161) | (3,161) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | 69,182 | 69,550 | 83,710 | 83,951 |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | | |
| Y cyfrif incwm a gwariant | | 61,417 | 61,785 | 75,637 | 75,878 |
| Y gronfa ailbrisio | | 7,765 | 7,765 | 8,073 | 8,073 |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | | 69,182 | 69,550 | 83,710 | 83,951 |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol sydd rhwng tudalennau 31 a 66 gan y Gorfforaeth ym mis Rhagfyr 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei rhan ar y dyddiad hwnnw gan:

| | | |
|---|---|---|
| Dr Griffith Wynn Jones | Mr D Evans | Mrs S Bowker |
| Cadeirydd | Y PRIF WEITHREDWR | arwyddwr Gweithredol Y Gwasanaethau Corfforaethol |

Grŵp Llandrillo Menai

## Datganiad Cyfunol ynghylch Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Mewnlif arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| Gwarged am y flwyddyn wedi treth | 2,884 | 979 |
| **Addasiadau'n unol â:** | | |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 6,230 | 4,996 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | (515) | 61 |
| Incwm cyllid pensiwn FRS 17 yn cynnwys cwtogiadau | (678) | 567 |
| Costau pensiynau llai cyfraniadau taladwy | 1,990 | 5,884 |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig | (3,299) | (2,687) |
| Incwm o fuddsoddiadau | (506) | (89) |
| Llog taladwy | 13 | 71 |
| Colled/(Enillion) yn sgil gwaredu ased sefydlog | (133) | (550) |
| **Llif arian gweithredol cyn symudiad mewn cyfalaf gweithi** | **5,986** | **9,232** |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn stoc | (15) | (55) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledwyr | (975) | 21 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn croniadau | 1,441 | (1,018) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr yn ddyledus ymhen blwyddyn | 1,877 | 1,706 |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | **8,314** | **9,886** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | 450 | 739 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 506 | 89 |
| Taliadau gan/(i) adneuon ariannol tymor byr | 544 | (3) |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | (24,131) | (9,419) |
| Grantiau cyfalaf gohiriedig a dderbyniwyd | 7,905 | 5,565 |
| | **(14,726)** | **(3,029)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | |
| Llogau a dalwyd | (13) | (71) |
| Yr elfen gyfalaf ar ad-dalu benthyciadau i fanciau | (121) | (113) |
| | **(134)** | **(184)** |
| **Cynnydd mewn arian ac eitemau sy'n cyfateb iddo yn ystod y flwyddyn** | **(6,547)** | **6,673** |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn | 30,670 | 23,997 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn | 24,123 | 30,670 |

Nodiadau i gyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

## 1. DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU A GWYBODAETH GYFFREDINOL

Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu a'r technegau amcangyfrif canlynol yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn faterol berthnasol i'r datganiadau ariannol.

**Sail y Paratoi**

"Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad ynghylch Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2015 (SORP AB AU 2015), y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Golegau Cymru o 2022 i 2023, ac yn unol â Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 – "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid sy'n rhoi budd i'r cyhoedd ac felly mae wedi rhoi gofynion perthnasol FRS 102 o ran budd y cyhoedd ar waith.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102, mae gofyn defnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig. Yn ogystal, mae gofyn i'r rheolwyr ddefnyddio doethineb wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Coleg ar waith.

**Sail y Cyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Grŵp ac ymgymeriadau is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023. Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys endidau y mae gan y Grŵp reolaeth arnynt drwy fudd ariannol neu ddylanwad sylweddol dros eu penderfyniadau masnachol a'u penderfyniadau mewn perthynas â pholisïau ariannol.

Cynhwysir endidau yn y datganiadau cyfunol o'r adeg y sicrhaodd y Grŵp reolaeth arnynt ac ni chânt eu cynnwys pan gollir y rheolaeth honno.

Wrth gyfuno, dilëwyd yr holl drafodion o fewn y Grŵp, y balansau a'r enillion nas gwireddwyd ar drafodion rhwng endidau'r Grŵp. Yn ogystal, dilëwyd colledion nas gwireddwyd oni bai fod y trafodyn yn dangos tystiolaeth o amharu ar yr ased a drosglwyddwyd. Pan fydd angen, gwneir addasiadau i ddatganiadau ariannol is-gwmnïau er mwyn cysoni'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir â'r rhai a ddefnyddir gan aelodau eraill y Grŵp.

**Sail y Cyfrifyddu**

Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn mewn perthynas â chost hanesyddol fel y'i haddaswyd yn sgil ailbrisio asedau sefydlog penodol.

Cyflwynir y datganiadau ariannol cyfunol mewn sterling a dyna yw'r arian cyfred a ddefnyddia'r Grŵp.

Oni nodir yn wahanol, talgrynnir symiau ariannol i'r £1,000 cyfan agosaf yn y datganiadau ariannol hyn.

**Datgelu llai**

Yn unol â SORP AB AU 2015 a FRS 102, yn ei ddatganiadau ariannol unigol, a gyflwynir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol cyfunol, mae'r Grŵp wedi manteisio ar yr eithriadau o ran datgelu sydd ar gael iddo mewn perthynas â chyflwyno datganiad llif arian ac offerynnau ariannol.

**Busnes Hyfyw**

Amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol weithgareddau'r Grŵp, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol. Disgrifir sefyllfa ariannol y Grŵp, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau, yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae gan y Grŵp arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i £24m (2022: £31m) a £0.1m (2022: £0.2m) o fenthyciadau heb eu had-dalu i fancwyr. Mae rhagolygon y Grŵp mewn perthynas â'r benthyciadau a'r rhagamcaniadau ariannol hyn yn dangos y gall weithredu'n unol â'r cyfamodau hyd y gellir rhagweld. Felly, mae'n rhesymol i'r Grŵp gymryd fod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y cyfnod y gellir ei ragweld ac o'r herwydd, bydd yn parhau i baratoi ei Ddatganiadau Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

**Cydnabod Incwm**

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gyrff cyllido a grantiau eraill a chânt eu cydnabod o dan y model croniadau fel y mae FRS 102 yn ei ganiatáu. Mesurir grantiau rheolaidd cyrff cyllido'n unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod y maent yn dderbyniadwy a dibynnant ar y ffrwd incwm penodol sydd dan sylw. Fel rheol, pennir incwm terfynol y grantiau ar ddiwedd y broses gysoni diwedd blwyddyn gyda'r corff cyllido wedi i'r flwyddyn ddod i ben, yn ogystal â chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllid.

Mae'r grant rheolaidd a dderbynnir gan CCAUC yn cynrychioli'r dyraniadau ariannol sydd i'w priodoli i'r flwyddyn ariannol bresennol ac fe'i credydir yn uniongyrchol i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr.

Pan gaiff rhan o grant y llywodraeth ei ohirio, cydnabyddir yr elfen ohiriedig fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ac fe'i dosrennir rhwng y rhai sy'n ddyledus ymhen blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn fel y bo'n briodol.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau anllywodraethol yn incwm pan fydd gan y Coleg hawl i'r incwm a phan fodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ar y fantolen ac fe'i rhyddheir yn incwm pan fodlonir yr amodau.

**Grantiau Cyllid Cyfalaf**

Caiff grantiau cyfalaf y Llywodraeth eu cyfalafu a'u trin fel incwm gohiriedig a'u cydnabod yn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, o dan y model croniadau fel y mae FRS 102 yn ei ganiatáu. Cydnabyddir grantiau cyfalaf anllywodraethol eraill yn incwm pan fydd gan y Coleg hawl i'r cyllid ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ar y fantolen ac fe'i rhyddheir yn incwm pan fodlonir yr amodau.

**Incwm o Ffioedd**

Dangosir incwm o ffioedd dysgu gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac fe'i cofnodir yn y cyfnod y'i derbynnir.

**Incwm o Fuddsoddiadau**

Caiff pob incwm o adneuon tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y caiff ei ennill ar sail dderbyniadwy.

**Trefniadau o ran Gweithredu fel Asiantaeth**

Gweithreda'r Grŵp fel asiant mewn perthynas â chasglu a thalu rhai grantiau cynhaliaeth dewisol. Lle mae'r Coleg yn agored i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodyn, caiff taliadau perthnasol a dderbynnir gan y cyrff cyllido ac unrhyw alldaliadau dilynol i fyfyrwyr eu heithrio o incwm a gwariant y Coleg.

## Buddion wedi Ymddeol

Darperir buddion ymddeol i weithwyr y Grŵp gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cynlluniau buddion diffiniedig a gyllidir yn allanol a'u heithrio o Ail Bensiwn y Wladwriaeth yw'r rhain.

**Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)**

Cynllun na chaiff ei gyllido yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Cyfrifir cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros oes waith gweithwyr gyda'r Coleg, fel bod cost pensiwn yn ganran eithaf gwastad o'r gyflogres bensiynadwy yn awr ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwarïaid cymwys ar sail prisio gan ddefnyddio dull budd dichonol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun aml-gyflogwr ac nid oes digon o wybodaeth ar gael i gyfrifyddu ar sail buddion diffiniedig. Felly, caiff y Cynllun ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chydnabyddir y cyfraniadau fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau y rhydd y gweithwyr eu gwasanaeth.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd (LGPS)**

Mae’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun a gyllidir. Mesurir asedau'r Cynllun gan ddefnyddio gwerthoedd teg wrth gau. Mesurir rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, a gostyngir eu gwerth ar y raddfa adennill yn achos bond corfforaethol o'r ansawdd uchaf sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaeth o ran tymor a gwerth. Ceir prisiad actiwaraidd o leiaf bob tair blynedd ac fe'u diweddarir ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar y gwarged gweithredu yw costau'r gwasanaethau cyfredol a chostau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau o ran buddion, setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys yn rhan o gostau staffio fel y digwyddant.

Yn ogystal, cydnabyddir llog net ar atebolrwydd/ased buddiannau diffiniedig net yn y Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys cost llog ar rwymedigaeth ddiffiniedig y budd a'r incwm o log ar asedau'r cynllun, a gyfrifwyd dwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod â'r gyfradd a ddefnyddiwyd i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd. Caiff y gwahaniaeth rhwng yr incwm o log asedau'r cynllun a'r gwir adenillion ar asedau'r cynllun ei gydnabod yn y costau llog a'r costau ariannol eraill.

Mae ail-fesur sy'n cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd, effaith terfyn uchaf yr ased a'r adenillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llogau net ar atebolrwydd buddion diffiniedig) yn cael eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall.

Rheolir asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraerh Leol gan ymddiriedolwyr y cynllun ar lefel y cynllun, ac actwari’r cynllun sy'n rheoli'r broses o bennu / dyrannu asedau i bob cyflogwr unigol yn y cynllun. Dyrennir yr asedau i bob cyflogwr at ddibenion cyfrifyddu yn seiliedig ar brisiad yr asedau yn y prisiad

tair blynedd diwethaf fel y'i haddaswyd ar gyfer cyfraniadau dilynol a dderbyniwyd gan y cyflogwr, ffurflenni asedau a thaliadau budd-dal a wnaed (naill ai ar sail arian parod neu sail actiwaraidd).

Mae'r rhwymedigaeth budd-dal ymddeol a gydnabyddir yn cynrychioli'r diffyg neu'r gwarged yn y cynlluniau buddion diffiniedig. Mae unrhyw warged sy'n deillio o'r cyfrifiad hwn wedi'i gyfyngu i werth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynlluniau neu ostyngiadau yng nghyfraniadau cyfraniadau i'r cynlluniau yn y dyfodol.

**Buddion cyflogaeth tymor byr**

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, fel cyflogau ac absenoldebau a ddigolledir (tâl gwyliau), fel traul yn y flwyddyn y rhydd y gweithwyr eu gwasanaeth i'r Grŵp. Cydnabyddir cost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd, y mae'r Grŵp yn disgwyl ei dalu yn y dyfodol, yn y cyfnod y derbyniwyd gwasanaeth y gweithiwr.

Cronnir unrhyw fuddion nas defnyddiwyd ac fe'u mesurir fel y swm ychwanegol y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

**Pensiynau Uwch**

Telir gwir gost unrhyw bensiwn uwch parhaus i gyn-aelod o staff gan y Grŵp yn flynyddol. Yn y flwyddyn y mae aelod staff yn ymddeol, codir yn llawn ar gyfrif incwm a gwariant y Grŵp yr amcangyfrif o gost ddisgwyliedig unrhyw godiad i bensiwn parhaus y cyn aelod staff hwnnw yn y dyfodol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl ar y darpariaethau yn y fantolen, gan ddefnyddio'r dull a ragnodwyd gan AdAS.

**Asedau Sefydlog Diriaethol**

***Tir ac adeiladau***

Mae'r Tir a ddelid ar ddyddiad y trawsnewid i'r FRS102 wedi'i nodi ar sail ei werth adeg prisio, llai'r colledion cronedig yn sgil amhariad.

Mae'r Adeiladau a ddelid ar ddyddiad y trawsnewid i FRS102 wedi'u nodi ar sail eu gwerth adeg prisio, llai dibrisiant cronedig a cholledion cronedig yn sgil amhariad.

Cyfrifir adeiladau sydd wrthi'n cael eu codi ar gost, llai unrhyw golled a ddynodwyd yn sgil amhariad. Mae'r gost yn cynnwys ffioedd proffesiynol ac unrhyw gostau eraill y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ac sy'n angenrheidiol i ddod â'r adeiladau i gyflwr gweithredol. Ni chânt eu dibrisio hyd nes y dechreuir eu defnyddio.

Nid yw tir rhydd-ddaliadol wedi'i ddibrisio. Caiff yr holl asedau eraill eu dibrisio, gan ddefnyddio'r sail llinell syth, er mwyn lleihau cost pob ased yn ôl amcangyfrif o'u gwerth gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | dros gyfnodau o rhwng 25 a 40 mlynedd |
| Gwelliannau i adeiladau dan brydles | dros 40 mlynedd neu weddill y brydles, pa un bynnag yw'r lleiaf |

***Gwariant dilynol ar asedau sefydlog diriaethol cyfredol***

Pan geir gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol, fe'i codir ar y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y'i gwnaed, oni bai y bydd yn cynyddu buddion y Grŵp yn y dyfodol. Os bydd, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

***Offer***

Caiff gwerth cyfarpar (ac eithrio cyfarpar cyfrifiadurol) sy'n costio llai na £5,000 yr eitem unigol ei ddileu a'i roi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael.  Caiff pob cyfarpar arall ei gyfalafu ar gost.  Cynhwysir cyfarpar a etifeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol yn y fantolen ar ei werth net ar bapur y dyddiad hwnnw.

Caiff cyfarpar a etifeddwyd ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes economaidd ddefnyddiol i'r Grŵp.  Caiff pob cyfarpar arall ei ddibrisio dros ei oes economaidd ddefnyddiol, gan ddefnyddio'r sail llinell syth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar cyffredinol | 5 - 10 mlynedd |
| Cyfarpar cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Cerbydau modur | 3 blynedd |

Pan geir cyfarpar gyda chymorth grantiau penodol, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio'n unol â'r polisi uchod, a chaiff y grant perthynol ei gredydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig, a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros y cyfnod y disgwylir i'r cyfarpar perthynol fod yn economaidd ddefnyddiol.

Os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos y gall cost cario unrhyw ased sefydlog fod yn anadferadwy, gwneir arolwg o'r amhariad (y lleihad yng ngwerth yr ased sefydlog). Cydnabyddir unrhyw ddiffyg rhwng gwerth cario asedau sefydlog a'u gwerth adferadwy fel amhariadau. Cydnabyddir colledion yn sgil amhariad yn y Datganiad ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Asedau Anniriaethol**

Mae asedau anniriaethol wedi’u nodi ar gost, llai amorteiddiad cronedig a cholledion cronedig yn sgil amhariad. Caiff amorteiddiad ei gyfrifo, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, er mwyn dyrannu swm dibrisiadwy'r ased i'w werth gweddilliol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ewyllys da | 5 mlynedd |

Pan fydd ffactorau'r farchnad yn dangos bod gwerth gweddilliol neu oes ddefnyddiol wedi newid, caiff y gwerth gweddilliol, yr oes ddefnyddiol neu'r gyfradd amorteiddio ei newid i adlewyrchu'r amgylchiadau newydd. Os bydd y ffactorau uchod yn dangos y gall y gost cario gael ei niweidio, cynhelir arolwg i weld a oes lleihad yng ngwerth yr ased.

**Asedau dan Brydles**

Caiff costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff asedau sydd dan brydles ariannol eu cyfalafu a'u dibrisio dros dymor y brydles neu dros eu hoes economaidd ddefnyddiol, pa un bynnag yw'r byrraf. Caiff y rhwymedigaeth berthynol ei chynnwys fel credydwr yn y fantolen.  Caiff y taliadau prydles sy'n uwch na rhwymedigaeth y brydles eu creu fel costau ariannol a gaiff eu hamorteiddio dros bob tymor prydles, fel bod cost ar raddfa gyson yn cael ei chodi ar weddill y rhwymedigaethau sydd ar ôl.

**Stoc**

Caiff stoc ei ddatgan yn ôl ei gost a'i werth dichonadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Pan fydd angen, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc anarferedig, stoc sy'n symud yn araf a stoc diffygiol. Seilir da byw amaethyddol ar werth cost tybiedig, sef 75% o'r gwerth ar y farchnad agored.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**

Codir cost cynnal a chadw rheolaidd ar y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y gwneir y gwaith.

**Trethiant**

Ystyrir bod y Grŵp wedi llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly, mae'n bodloni'r diffiniad o endid elusennol i ddibenion treth gorfforaethol yn y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n bosibl y gall y Grŵp gael ei eithrio o dreth ar incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd yn y categorïau y sonnir amdanynt ym Mhennod 3 Rhan 11 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 neu adran 256 Deddf Treth ar Enillion Taladwy 1992, i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl i ddibenion elusennol.

Mae'r Grŵp wedi'i eithrio'n rhannol yn achos Treth ar Werth, felly ni all ond adfer elfen fechan o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynnau. Caiff TAW anadferadwy ar fewnbynnau ei gynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'i ychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, pan fydd y mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol wrth natur. Rhaid i is-gwmnïau'r Grŵp dalu treth gorfforaethol a TAW fel y mae'n rhaid i unrhyw sefydliad masnachol ei wneud.

**Buddsoddiadau**

Caiff buddsoddiadau a restrir ac a ddelir fel asedau anghyfredol a chyfredol, a all gynnwys buddsoddiadau a restrir, eu datgan yn ôl eu gwerth teg, gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn yr Incwm Cynhwysfawr.

**Buddsoddiadau mewn Asedau Sefydlog**

***Coleg***

I ddechrau, caiff budd mewn is-gwmnïau ei fesur ar gost ac yna ei fesur ar gost llai unrhyw golledion cronedig yn sgil amhariad yn natganiad ariannol unigol y Coleg.

**Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo**

Mae arian parod yn cynnwys arian sydd mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar gais, a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os gellir eu cael o fewn 24 awr heb orfod wynebu cosb.

Mae eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol y gellir eu newid yn rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb fawr ddim risg y bydd newid yn eu gwerth. Pan fydd yn aeddfedu 3 mis neu'n gynt ar ôl dyddiad ei gaffael, mae buddsoddiad yn cyfrif fel eitem sy'n cyfateb i arian parod.

**Cronfa Ariannol Wrth Gefn**

Mae grant Cronfa Ariannol Wrth Gefn AdAS ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y mwyafrif o achosion, gweithredu fel asiant talu yn unig a wna'r Grŵp. O dan yr amgylchiadau hyn, ni chaiff y grantiau a'r gwariant perthynol eu cynnwys yn y cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r incwm a'r gwariant a gyfunwyd yn natganiadau ariannol y Grŵp yn ymwneud â'r cludiant a'r gofal plant a ddarperir gan y Grŵp ar ran y myfyrwyr, yn ogystal â'r costau staffio sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r gronfa.

**Atebolrwydd Ariannol ac Ecwiti**

Dosberthir atebolrwydd ariannol ac ecwiti yn ôl sylwedd atebolrwydd contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Caiff yr holl fenthyciadau, buddsoddiadau ac adneuon tymor byr a ddelir gan y Grŵp eu hystyried yn offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Yn y lle cyntaf, cofnodir yr offerynnau hyn ar bris y trafodyn llai unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae'n ofynnol yn ôl FRS 102 bod offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur wedi hynny ar gost wedi'i hamorteiddio. Fodd bynnag, mae'r Coleg wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r gost wedi'i hamorteiddio yn faterol berthnasol ac felly nodwyd yr offerynnau ariannol hyn ar y fantolen yn ôl cost hanesyddol. Ni chaiff benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ymhen blwyddyn eu disgowntio.

**Darpariaethau a Rhwymedigaethau Amodol**

Cydnabyddir darpariaethau pan

- fydd gan y Coleg ddyletswydd gyfreithiol neu ddeongliadol gyfredol o ganlyniad i rywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol
- pan mae'n bosibl y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth, a
- phan ellir rhagamcanu gwerth y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Pan fydd effaith gwerth yr arian o ran amser yn faterol berthnasol, cydnabyddir y swm a ddisgwylir y bydd ei angen i gyflawni'r rhwymedigaeth ar ei werth presennol, gan ddefnyddio cyfradd disgownt cyn-treth. Cydnabyddir dirwyn y disgownt i ben fel cost ariannol yn y datganiad ar incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y cyfyd.

Mae rhwymedigaeth amodol yn deillio o ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod ar y Coleg rwymedigaeth bosibl, na chaiff ei chadarnhau ond yn sgil rhywbeth ansicr sy'n digwydd neu ddim yn digwydd yn y dyfodol, nad yw o dan reolaeth lwyr y Coleg. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond ei bod yn annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y fantolen ond fe'u datgelir yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

**Dyfarniadau mewn perthynas â rhoi polisïau cyfrifyddu ar waith a ffynonellau allweddol o ansicrwydd mewn amcangyfrifon**

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, bu'n rhaid i'r rheolwyr ddyfarnu ynghylch y canlynol:

- Penderfynu a yw prydlesi y cytunodd y Coleg iddynt, naill ai fel prydleswr neu ddaliwr prydles, naill ai'n brydlesi gweithredol neu'n brydlesi cyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn ddibynnol ar asesu a yw'r risgiau a'r budd a geir o fod yn berchen arnynt wedi'u trosglwyddo fesul prydles o'r prydleswr i'r sawl sy'n dal y brydles.
- Penderfynu a oes arwyddion bod rhywbeth wedi amharu ar asedau diriaethol y Grŵp. Mae'r ffactorau a ystyrir wrth wneud penderfyniadau o'r fath yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol, a lle mae'n rhan o uned fwy sy'n cynhyrchu arian, hyfywedd a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.
- Penderfynu ar isafswm gofyniad cyllid i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'w gynnwys yn y terfyn uchaf ar asedau wrth fesur a chydnabod gwarged yn y cynllun. Mae'r dyfarniad hwn yn seiliedig ar asesiad o natur y cynllun fel cynllun statudol, y diddordeb sydd ymhlyg yn ei barhad yn ogystal â gweithrediad y cyfraniadau cynradd ac eilaidd.

**Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd mewn amcangyfrifon**

- Asedau Sefydlog Diriaethol

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol, ac eithrio adeiladau y buddsoddwyd ynddynt, dros eu hoes ddefnyddiol, gan ystyried gwerthoedd gweddilliol lle y bo’n briodol. Asesir oes wirioneddol yr asedau a’r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gall amrywio, yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes ased, ystyrir ffactorau fel arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Wrth asesu gwerth gweddilliol, ystyrir materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a'r gwerthoedd gwaredu a ragwelir.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd â buddion wedi’u diffinio’n dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraidd gan ragdybio sawl peth. Mae’r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth bennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau'n cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 26, yn cael effaith ar swm y rhwymedigaeth bensiwn a gaiff ei chario. Mae'r actiwari wedi defnyddio dull 'dwyn ymlaen' sy'n rhagweld canlyniadau ar sail y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf dyddiedig 31 Mawrth 2016 i brisio'r rhwymedigaeth bensiynau ar 31 Gorffennaf 2023. Byddai unrhyw wahaniaeth yn ffigyrau'r dull dwyn ymlaen a'r prisiad actiwaraidd llawn yn cael effaith ar swm y rhwymedigaeth bensiwn a gaiff ei gario.

## 2. GRANTIAU GAN GYRFF CYLLIDO

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Grant Rheolaidd AdAS | 47,876 | 47,875 | 45,576 | 45,576 |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 12,588 | 8,517 | 12,871 | 8,943 |
| Rhyddhau grant cyfalaf gohiriedig AdAS | 3,299 | 3,299 | 2,687 | 2,687 |
| Grant AdAS i Ddysgwyr ag Anawsterau/Anableddau Dysgu | 2,100 | 2,100 | 2,299 | 2,299 |
| Grant Rheolaidd CCAUC | 983 | 983 | 861 | 861 |
| Grantiau eraill AdAS | 9,072 | 9,072 | 12,256 | 12,256 |
| | 75,918 | 71,846 | 76,550 | 72,622 |

## 3. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSGOL

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Myfyrwyr Addysg Uwch o'r Deyrnas Unedig | 2,511 | 2,511 | 3,055 | 3,055 |
| Myfyrwyr Addysg Bellach o'r Deyrnas Unedig | 439 | 439 | 566 | 566 |
| Myfyrwyr o du allan yr Undeb Ewropeaidd | 22 | 22 | 58 | 58 |
| Cyfanswm y ffioedd a dalwyd gan neu ar ran myfyrwyr unigol | 2,972 | 2,972 | 3,679 | 3,679 |
| Contractau Addysgol: | | | | |
| Incwm Breinio | 1,131 | 1,131 | 962 | 962 |
| | 4,103 | 4,103 | 4,641 | 4,641 |

## 4. INCWM ARALL

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Ewropeaidd | 3,979 | 3,979 | 2,824 | 2,824 |
| Arlwyo (ffreuturau a bwytai) | 1,219 | 1,219 | 867 | 867 |
| Gweithgareddau ffermio | 900 | 900 | 734 | 734 |
| Incwm o grantiau eraill | 3,050 | 3,050 | 1,792 | 1,792 |
| Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm | 3,153 | 3,123 | 3,053 | 3,023 |
| | 12,301 | 12,271 | 9,270 | 9,240 |

## 5. INCWM O WADDOLION A BUDDSODDIADAU

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog ar adneuon ariannol | 506 | 499 | 89 | 89 |
| Difidend gan is-gwmni | - | 524 | - | 660 |
| | 506 | 1,023 | 89 | 749 |

## 6. RHODDION

| | GRŴP 2023 | Coleg 2023 | GRŴP 2022 | Coleg 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | - | - | - | - |
| | - | - | - | - |

## 7. COSTAU STAFFIO

Y nifer cyfartalog o bobl (yn cynnwys rheolwyr allweddol) a gyflogid gan y Grŵp yn ystod y flwyddyn, wedi'i fynegi fel y cyfrif pennau cyfartalog a'i gyfrifo'n fisol, oedd:

| | GRŴP 2023 Nifer | Coleg 2023 Nifer | GRŴP 2022 Nifer | Coleg 2022 Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adrannau Addysgu | 984 | 984 | 965 | 965 |
| Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu | 266 | 221 | 257 | 219 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 71 | 63 | 75 | 64 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog | 169 | 157 | 171 | 152 |
| Adeiladau | 42 | 42 | 41 | 40 |
| Arlwyo a Mannau Preswylio | 36 | 36 | 35 | 35 |
| Gweithgareddau ffermio | 10 | 10 | 10 | 10 |
| | 1,578 | 1,513 | 1,554 | 1,485 |

**Costau staffio'r bobl uchod**

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adrannau Addysgu | 40,007 | 40,007 | 37,461 | 37,461 |
| Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu | 8,268 | 6,971 | 7,651 | 6,548 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 1,933 | 1,730 | 1,933 | 1,578 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog | 6,500 | 5,660 | 5,926 | 5,152 |
| Adeiladau | 1,582 | 1,582 | 1,397 | 1,374 |
| Arlwyo a Mannau Preswylio | 681 | 681 | 609 | 609 |
| Gweithgareddau ffermio | 235 | 235 | 198 | 198 |
| Costau ymddeol ac ad-drefnu | 193 | 193 | 247 | 247 |
| Costau FRS102 | 1,990 | 1990 | 5,884 | 5,884 |
| | 61,389 | 59,049 | 61,306 | 59,051 |

**Dadansoddwyd yn ôl:**

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 45,802 | 43,751 | 42,781 | 40,802 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,429 | 4,237 | 4,080 | 3,883 |
| Costau pensiwn (yn cynnwys FRS102) | 10,965 | 10,869 | 14,198 | 14,119 |
| Costau ymddeol ac ad-drefnu | (267) | (267) | 247 | 247 |
| | 60,929 | 58,590 | 61,306 | 59,051 |
| Costau eithriadol o ran ad-drefnu | 460 | 460 | - | - |
| | 61,389 | 59,049 | 61,306 | 59,051 |

**Deiliaid Swyddi Uwch**

Y diffiniad o ddeiliaid swyddi uwch yw Prif Weithredwr y Grŵp a deiliaid swyddi uwch eraill y mae'r Corff Llywodraethu wedi'u dewis i ddibenion erthyglau llywodraethu'r Grŵp mewn perthynas â phenodi a dyrchafu staff a benodir gan y Corff Llywodraethu.

| | 2023 Nifer | 2022 Nifer |
|---|---|---|
| Nifer y deiliaid swyddi uwch, yn cynnwys Prif Weithredwr y Grŵp: | 6 | 6 |

Nifer y deiliaid swyddi uwch a staff eraill a dderbyniodd enillion, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion o fath arall, ar y cyfraddau a ganlyn:

| | Deiliaid swyddi uwch | | Staff eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | **2023** | **2022** | **2023** | **2022** |
| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
| £60,001 i £65,000 | 0 | 0 | 6 | 6 |
| £65,001 i £70,000 | 0 | 0 | 4 | 13 |
| £70,001 i £75,000 | 0 | 0 | 11 | 2 |
| £70,001 i £80,000 | 0 | 0 | 6 | 2 |
| £80,001 i £85,000 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| £110,001 i £115,000 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| £120,001 i £125,000 | 0 | 3 | 1 | 1 |
| £125,001 i £130,000 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| £145,001 i £150,000 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| £195,001 i £200,000 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| £200,001 i £210,000 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | 6 | 6 | 30 | 24 |

Mae enillion deiliaid swyddi uwch yn cynnwys y canlynol:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflog (yn cynnwys taliadau cynyddran a chodiadau cyflog) | 829 | 820 |
| Buddion o fath arall | 14 | 14 |
| | 843 | 834 |
| Cyfraniadau pensiwn | 128 | 103 |
| **Cyfanswm yr enillion** | 971 | 937 |

Mae'r enillion uchod yn cynnwys y symiau a dalwyd i'r deiliad swydd uwch sy'n derbyn y cyflog uchaf:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflog (yn cynnwys taliadau cynyddran a chodiadau cyflog) | 208 | 198 |
| Buddion o fath arall | 2 | 2 |
| | 210 | 200 |
| Cyfraniadau pensiwn | - | - |

Penderfynwyd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r swyddog cyfrifyddu am 2022-23 ar sail graddfa a awdurdodwyd gan y Bwrdd. Nid oedd a wnelo'r swyddog cyfrifyddu â phennu'r gydnabyddiaeth. Y prif ffactor a ystyriodd y Pwyllgor wrth bennu cydnabyddiaeth y swyddog cyfrifyddu am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 oedd codiadau cyflog staff eraill. Ei benderfyniad oedd pennu codiad is na'r codiad a roddwyd i staff eraill a rheolwyr canol.

**Perthynas cyflog y Pennaeth/Prif Weithredwr a thâl lluosol**

Cyflog sylfaenol y Pennaeth/Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff 5.23 (2022: 5.55)

Cyfanswm cydnabyddiaeth y Pennaeth/Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff 6.26 (2022: 6.74)

Iawndal a dalwyd i gyn-reolwyr allweddol yn sgil colli swyddi

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| | 0 | 0 |

Ni thalwyd iawndal am golli swyddi yn ystod y flwyddyn

Ni dderbyniodd aelodau'r Gorfforaeth, ac eithrio'r Prif Weithredwr, unrhyw dâl gan y Grŵp heblaw i'w digolledu am gostau teithio a threuliau cynhaliaeth y bu'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**GWEITHGAREDDAU TRAMOR – ac eithrio gweithgareddau tramor myfyrwyr**

Ysgwyddwyd y costau net a ganlyn yn ystod 2022-23 mewn perthynas â gweithgareddau tramor a gynhaliwyd yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

| Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 | Teithio a Llety | Cynhaliaeth | Costau Eraill | Nifer yr Ymweliadau |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | Nifer |
| | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deiliaid Swyddi Uwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion eraill | 2,114 | 152 | 705 | 4 |

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022

| | Teithio a Llety | Cynhaliaeth | Costau Eraill | Nifer yr Ymweliadau |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | Nifer |
| | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deiliaid Swyddi Uwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion eraill | 0 | 0 | 0 | 3 |

## 8. ARALL COSTAU GWEITHREDU ERAILL

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adrannau Addysgu | 7,814 | 7,160 | 8,500 | 7,920 |
| Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu | 185 | 185 | 191 | 191 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 513 | 513 | 542 | 542 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog | 3,261 | 2,768 | 2,881 | 2,430 |
| Gwariant addysgol cyffredinol | 2,061 | 2,061 | 1,832 | 1,832 |
| Costau mewn perthynas ag adeiladau – Costau Rhedeg | 5,006 | 4,844 | 4,723 | 4,571 |
| Costau mewn perthynas ag adeiladau – Costau Cynnal a Chadw | 1,657 | 1,657 | 1,736 | 1,736 |
| Costau mewn perthynas ag adeiladau – Rhenti a Phrydlesi | 374 | 374 | 294 | 294 |
| Cynnal a Chadw Hir Dymor | 0 | 0, | 150 | 150 |
| Costau eraill | 2,252 | 2,240 | 2,331 | 2,341 |
| **Cyfanswm** | 23,123 | 21,802 | 23,180 | 21,997 |

| **Mae'r treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau i Archwilwyr: | | | | |
| Archwilio datganiadau ariannol | 65 | 60 | 52 | 46 |
| Gwasanaethau eraill gan yr archwilwyr allanol | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Archwiliad mewnol | 25 | 25 | 25 | 25 |
| Gwasanaethau eraill gan yr archwilwyr mewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llogi asedau dan brydlesi gweithredol | 15 | 0 | 0 | 0 |
| Elw o werthu asedau sefydlog | 237 | 0 | 761 | 550 |

Grŵp Llandrillo Menai

## 9. LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL

| | GRŴP 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Ar fenthyciadau gan fanciau: | | |
| Yn ad-daladwy ymhen pum mlynedd, mewn rhandaliadau | 13 | 71 |
| Yn ad-daladwy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ymhen mwy na phum mlynedd | 0 | 0 |
| | 13 | 71 |
| (Incwm) o gyllid pensiwn / costau | (678) | 567 |
| **Cyfanswm** | (665) | 638 |

## 10. ASEDAU ANNIRIAETHOL AC EWYLLYS DA (Y GRŴP A'R COLEG)

| | Ewyllys da £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 575 | 575 |
| Derbyniadau yn sgil cyfuniadau busnes | - | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 575 | 575 |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 459 | 459 |
| Tâl amorteiddio | 116 | 116 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 575 | 575 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023** | **-** | **-** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2022 | 116 | 116 |

## 11. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL – CYFUNOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol | Gwelliannau i eiddo dan brydles | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Ased Treftadaeth – Gwaith Celf | Offer | Cerbydau Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 143,275 | - | 6,849 | 5 | 12,581 | 34 | 162,744 |
| Ychwanegiadau | 3,204 | 179 | 18,512 | - | 2,146 | 93 | 24,134 |
| Ailddynodi | 4,682 | - | (4,755) | - | 73 | - | - |
| Gwaredu | (500) | - | - | - | - | - | (500) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 150,661 | 179 | 20,606 | 5 | 14,800 | 127 | 186,378 |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 53,921 | - | - | - | 11,982 | 34 | 65,937 |
| Tâl am y flwyddyn | 4,971 | 18 | - | - | 1,095 | 31 | 6,115 |
| Gwaredu | (182) | - | - | - | - | - | (182) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 58,710 | 18 | - | - | 13,077 | 65 | 71,870 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023** | **91,951** | **161** | **20,606** | **5** | **1,723** | **62** | **114,508** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2022 | 89,354 | - | 6,849 | 5 | 599 | - | 96,807 |

## ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL – Y COLEG (Nodyn 11 - parhad)

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Ased Treftadaeth – Gwaith Celf | Offer | Cerbydau Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 142,760 | 6,849 | 5 | 12,426 | 34 | 162,074 |
| Ychwanegiadau | 3,204 | 18,512 | | 2,118 | 93 | 23,927 |
| Ailddynodi | 4,682 | (4,755) | | 73 | - | - |
| Gwaredu | - | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 150,646 | 20,606 | 5 | 14,617 | 127 | 186,001 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 53,728 | - | - | 11,859 | 34 | 65,621 |
| Tâl am y flwyddyn | 4,967 | - | - | 1,054 | 31 | 6,052 |
| Gwaredu | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | 58,695 | - | - | 12,913 | 65 | 71,673 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023** | **91,951** | **20,606** | **5** | **1,704** | **62** | **114,328** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2022 | 89,032 | 6,849 | 5 | 567 | - | 96,453 |

Prisiwyd y tir a'r adeiladu yn 1996 ar y gost adnewyddu wedi'i dibrisio gan Chestertons, cwmni syrfewyr siartredig annibynnol. Pe na bai'r tir a'r adeiladau a etifeddwyd wedi'u hailbrisio byddant wedi'u cynnwys ar y gost hanesyddol a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Cost | DIM |
| Dibrisiant cronedig | DIM |
| Gwerth net ar bapur ar ddiwedd y flwyddyn | DIM |

## 12. BUDDSODDIADAU

Mae'r Grŵp yn berchen ar 100% o gyfalaf cyfranddaliadau North Wales Training Limited. Prif fusnes North Wales Training Limited yw darparu prentisiaethau a hyfforddiant ym maes sgiliau

## 13. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | - | 1,806 | - | 1,806 |
| Buddsoddiadau mewn asedau anghyfredol eraill | 56 | 56 | 56 | 56 |
| **Cyfanswm** | 56 | 1,862 | 56 | 1,862 |

Mae'r Grŵp yn berchen ar 100% o gyfranddaliadau £1 cyffredin y cwmnïau a ganlyn, yr ymgorfforwyd pob un ohonynt ym Mhrydain Fawr.

– North Wales Training Limited sy'n ymwneud yn bennaf â darparu hyfforddiant.

- ColSol Limited sy'n segur.

Mae'r Grŵp wedi buddsoddi mewn cyfranddaliadau yn Hufenfa De Arfon, busnes cydweithredol sy'n eiddo i ffermwyr. Defnyddia'r Grŵp Hufenfa De Arfon i basteureiddio llaeth. Yn ogystal, mae gan y Grŵp fuddsoddiad yn Wynnstay Group plc.

## 14. DYLEDWYR MASNACHOL A SYMIAU ERAILL SY'N DDERBYNIADWY

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn: | | | | |
| Dyledwyr masnachol | 3,059 | 2,666 | 1,257 | 1,160 |
| Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau'r Grŵp: | | - | - | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,049 | 2,905 | 4,712 | 4,669 |
| Symiau sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cysylltiedig | 1,628 | 1,628 | 792 | 688 |
| **Cyfanswm** | 7,736 | 7,199 | 6,761 | 6,517 |

## 15. STOC

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Stoc | 695 | 695 | 680 | 680 |

Mae'r stoc yn cyfeirio'n bennaf at y da byw a gedwir i ddibenion addysgol. Ni chaiff ei brynu gyda'r bwriad i'w ailwerthu.

## 16. BUDDSODDIADAU CYFREDOL

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon tymor byr | 3,000 | 3,000 | 3,544 | 3,544 |
| | 3,000 | 3,000 | 3,544 | 3,544 |

Mae'r Grŵp wedi buddsoddi mewn un cyfrif cadw (2022: 1) sy'n gofyn am rybudd o 95 diwrnod i gael mynediad at yr arian. Delir yr adneuon gan fanciau sy'n gweithredu ym marchnad Llundain, wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, gyda mwy na 3 mis tan y dyddiad aeddfedu ar ddyddiad y fantolen.

## 17. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN

| | GRŴP 2023 | Coleg 2023 | GRŴP 2022 | Coleg 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau gan fanciau | 125 | 125 | 121 | 121 |
| Taliadau masnachol | 1,017 | 972 | 707 | 661 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 1,590 | 1,530 | 66 | - |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 9,164 | 8,981 | 7,740 | 7,688 |
| Symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru | 2,733 | 2,733 | 2,674 | 2,674 |
| Incwm gohiriedig – cyfalaf gan y llywodraeth | 2,213 | 2,213 | 2,610 | 2,610 |
| | 16,842 | 16,554 | 13,918 | 13,754 |

Mae tâl gwyliau crynodol o £1,798K (2022: £1,857k) wedi'i gynnwys yn y croniadau

## 18. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL BLWYDDYN

| | GRŴP 2023 £'000 | Coleg 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau gan fanciau | - | - | 125 | 125 |
| Incwm gohiriedig – cyfalaf gan y llywodraeth | 63,083 | 63,083 | 58,079 | 58,079 |
| | 63,083 | 63,083 | 58,204 | 58,204 |

## 19. BENTHYCIADAU BANC A GORDDRAFFTIAU

Mae'r benthyciadau gan fanciau a'r gorddrafftiau i'w had-dalu fel a ganlyn:

| | GRŴP 2023 £'000 | GRŴP 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen blwyddyn neu lai | 125 | 121 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | - | 125 |
| **Cyfanswm** | 125 | 246 |

Mae un benthyciad gan fanc, y mae ei falans yn £125k, heb ei dalu ac yn ad-daladwy ar raddfa llog sefydlog o 6.54% fesul rhandaliadau rhwng mis Gorffennaf 2004 a mis Gorffennaf 2024. Mae cyfanswm y benthyciadau gan fanciau wedi'i sicrhau drwy gyfrwng taliad sefydlog ar gyfrif tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol y Grŵp.

## 20. DARPARIAETHAU ERAILL

| | Pensiynau Uwch £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2022 | **3,161** | **3,161** |
| Trosglwyddwyd o'r cyfrif incwm a gwariant | (515) | (515) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **2,646** | **2,646** |

Mae'r ddarpariaeth o ran pensiynau uwch yn ymwneud â chostau staff sydd eisoes wedi gadael eu swyddi gyda'r Grŵp. Cyfrifwyd y ddarpariaeth yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y cyrff cyllido. Cyfrifwyd y ddarpariaeth eto yn dilyn y newid yn nhybiaeth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ynghylch y cynnydd mewn pensiynau.

Y prif dybiaethau o ran y cyfrifo hwn yw:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau | **2.8%** | **2.9%** |
| Cyfradd ddisgowntio | **5.0%** | **3.3%** |

Grŵp Llandrillo Menai

## 21. DIGWYDDIADAU WEDI'R CYFNOD ADRODD

Nid oes digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd.

## 22. RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn penodol: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS) i staff academaidd a staff perthynol a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i staff nad ydynt yn addysgu, a reolir gan Gyngor Gwynedd.

| **Cyfanswm costau pensiwn am y flwyddyn** | | **2023** | | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | | £'000 |
| Cynllun Pensiwn Athrawon: y cyfraniadau a dalwyd | | 4,988 | | 4,681 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: | | | | |
| Y cyfraniadau a dalwyd | 3,884 | | 3,554 | |
| Cost FRS 102 (28) | 1,990 | | 5,884 | |
| Y gost i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr | | 5,874 | | 9,438 |
| Cost pensiwn uwch i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr | | (515) | | 61 |
| **Cyfanswm cost pensiynau am y flwyddyn** | | 10,347 | | 14,180 |

Caiff costau pensiynau eu hasesu'n unol â chyngor actiwarïaid cymwys annibynnol. Cafodd y Cynllun Pensiwn Athrawon ei brisio ddiwethaf gan yr actiwarïaid ar 31 Mawrth 2020 a chafodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei brisio ddiwethaf gan yr actiwarïaid ar 31 Mawrth 2022.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus nac wedi'u rhagdalu naill ar ddechrau nac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cynllun Pensiwn Athrawon**

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun budd statudol, cyfrannol, wedi'i ddiffinio, a lywodraethir gan Reoliadau Pensiynau Athrawon 2014. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau'n cyfrannu ar sail "talu wrth fynd" – mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr ac nid oes digon o wybodaeth ar gael i gyfrifyddu ar sail buddion diffiniedig felly fe'i cyfrifyddir fel cynllun cyfraniadau diffinedig.

**Prisio'r Cynllun Pensiwn Athrawon**

Dim llai na phob pedair blynedd mae Actwari’r Llywodraeth, gan ddefnyddio egwyddorion actiwaraidd arferol, yn cynnal adolygiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Nod yr adolygiad yw nodi lefel y cyfraniadau yn y dyfodol. Mae prisiadau cynllun actiwaraidd yn dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch gwerth costau yn y dyfodol, natur y buddion a llawer o ffactorau eraill. Cynhaliwyd yr adolygiad actiwaraidd diwethaf o'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar 31 Mawrth 2020, ac yn unol â'r Cyfarwyddiadau ynghylch Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Prisiadau a Chapio Costau Cyflogwyr) 2023 a'r Gyfradd Cyfraniad Cyflogwyr fe'i haseswyd gan ddefnyddio rhagdybiaethau a gytunwyd yn y Cyfarwyddiadau ac fe'i derbyniwyd ar y gyfradd asesu wreiddiol gan nad oedd unrhyw fecanwaith rheoli costau yn cael ei dorri.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y prisio ar 26 Hydref 2023.  Dyma brif ganlyniadau'r prisiad:

- cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer gwasanaeth (y swm cyfalaf oedd ei angen ar 31 Mawrth 2020 i ddiwallu llif arian y dyfodol mewn perthynas â buddion a enillir) o £262 biliwn.
- Gwerth asedau tybiannol (amcangyfrif o gyfraniadau yn y dyfodol ynghyd â'r enillion o'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar y dyddiad prisio) o £222.2 biliwn
- diffyg tybiannol o £39.8 biliwn mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol (2016: £22 biliwn)
- Mae'r gyfradd disgownt yn 1.7% yn fwy na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (2016: 2.4% yn fwy na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (y newid sydd wedi cael yr arwyddocâd ariannol mwyaf)

**Rhwymedigaethau o ran Buddion wedi'u Diffinio (parhad)**

O ganlyniad i'r prisiad, pennwyd mai cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr fyddai 28.6% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2027 (o gynharu â 23.68% o dan y prisiad blaenorol yn cynnwys ardoll o 0.08% am weinyddu).

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn ystod y flwyddyn oedd £4,987,000 (2022: £4,681,000)

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig ac mae ei asedau'n cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 oedd £5,148,000 (2022 - £4,681,000) gyda'r cyflogwyr yn cyfrannu cyfanswm o £3,8844,000 (2022 - £3,544,000) a'r gweithwyr yn cyfrannu cyfanswm o £1,264,000 (2022 - £1,127,000). Ar 1 Ebrill 2023, newidiodd cyfradd gyfrannu'r gweithwyr i fod yn ddibynnol ar eu cyflog fel y dangosir isod:

Newidiadau i'r bandiau

| **Y Band o 1 Ebrill 2023 Tâl Amser Cyflawn** | **Y Band o 1 Ebrill 2022 Tâl Amser Cyflawn** | **Y Gyfradd Gyfrannu** |
|---|---|---|
| £0-£16,500 | £0-£15,000 | 5.5% |
| £16,501 - £25,900 | £15,001 - £23,600 | 5.8% |
| £25,901 - £42,100 | £23,601 - £38,300 | 6.5% |
| £42,101 - £53,300 | £38,301 - £48,500 | 6.8% |
| £53,301 - £74,700 | £48,501 - £67,900 | 8.5% |
| £74,701 - £105,900 | £67,901 - £96,200 | 9.9% |
| £105,901 - £124,800 | £96,201 - £113,400 | 10.5% |
| £124,801 - £187,200 | £113,401 - £170,100 | 11.4% |
| Mwy na £187,100 | Mwy na £170,100 | 12.5% |

**RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION WEDI'U DIFFINIO (parhad)**

Seiliwyd y wybodaeth ganlynol ar brisiad actiwaraidd llawn o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2020 a ddiweddarwyd hyd at 31 Gorffennaf 2023 gan actwari annibynnol cymwys.

| | **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **Ar 31 Gorffennaf 2022** |
|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.50% | 3.05% |
| Darpar gynnydd mewn pensiynau | 3.00% | 2.75% |
| Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 5.05% | 3.5% |
| Cyfnewid pensiynau am gyfandaliadau | 50% | 50% |

**Cyfnewid**

Mae'r tybiaethau cyfredol ynghylch marwolaethau'n cynnwys lwfans digonol ar gyfer gwelliannau yn y cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Tybir y bydd y rhai a fydd yn ymddeol yn 65 yn byw am y niferoedd canlynol o flynyddoedd wedi hynny:

| | **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **Ar 31 Gorffennaf 2022** |
|---|---|---|
| | **Blynyddoedd** | **blynyddoedd** |
| ***Yn ymddeol heddiw*** | | |
| Dynion | 20.4 | 20.2 |
| Merched | 23.7 | 23.4 |
| ***Yn ymddeol mewn 20 mlynedd*** | | |
| Dynion | 21.7 | 21.1 |
| Merched | 25.5 | 24.6 |

## RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION WEDI'U DIFFINIO (parhad)

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (parhad)

Dyma gyfran y Grŵp o asedau Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd (amcangyfrifir bod cyfran y Grŵp yn 1.5%) a'r gyfradd adennill ddisgwyliedig:

| | Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2023 £'000 | Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth teg yr asedau** | 159,765 | 154,675 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | | |
| – wedi'u cyllido | (117,662) | (134,150) |
| – heb eu cyllido | (158) | (166) |
| Addasiad i Derfyn Uchaf yr Asedau | (40,310) | - |
| Asedau yn y cynllun | 1,635 | 20,359 |

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gynhwysir yn y costau staffio** | | |
| Costau gwasanaeth cyfredol | 5,785 | 9,759 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 24 | - |
| **Cyfanswm** | 5,809 | 9,759 |
| **Symiau a gynhwysir yn yr incwm o fuddsoddiadau** | | |
| Incwm llog net | 5,457 | 3,371 |
| llogau ar asedau'r cynllun | (4,779) | (2,804) |
| | 678 | 567 |
| **Symiau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall** | | |
| Adenillion ar asedau'r cynllun pensiwn | (1,074) | 2,842 |
| Newidiadau yn y tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 23,972 | 50,891 |
| Y swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall | 22,898 | 53,733 |

RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION WEDI'U DIFFINIO (parhad)

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (parhad)**

**Symudiad yn (rhwymedigaeth)/asedau'r buddion net diffiniedig yn ystod y flwyddyn**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwarged/(Diffyg) yn y cynllun ar 1 Awst | 20,359 | (26,923) |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn: | | |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (5,809) | (9,759) |
| Cyfraniadau cyflogwr | 3,819 | 3,875 |
| Llog net ar y (rhwymedigaeth)/ased ddiffiniedig | 678 | (567) |
| Enillion actiwaraidd | 22,898 | 53,733 |
| Addasiad i Derfyn Uchaf yr Asedau | (40,310) | - |
| **Buddion diffiniedig net asedau/(rhwymedigaeth) ar 31 Gorffennaf** | 1,635 | 20,359 |

**Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau**

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio** | | |
| **Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio ar ddechrau'r cyfnod** | 134,316 | 173,257 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | 5,785 | 9,759 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 24 | - |
| Cost llogau | 4,779 | 3,371 |
| Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun | 1,242 | 1,241 |
| Enillion a cholledion profiad yn deillio o rwymedigaethau buddion wedi'u diffinio | (25,973) | (50,891) |
| Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd | (2,339) | (2,421) |
| Y buddion a dalwyd nas cyllidwyd | (14) | 0 |
| **Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio ar ddiwedd y cyfnod** | 117,820 | 134,316 |

**Cysoni Asedau**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod** | 154,675 | 146,334 |
| Llogau ar asedau'r cynllun | 5,457 | 2,804 |
| Adenillion ar asedau'r cynllun | (1,074) | 2,842 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 3,805 | 3,861 |
| Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun | 1,242 | 1,241 |
| Enillion a cholledion profiad yn deillio o rwymedigaethau asedau wedi'u diffinio | (2,001) | - |
| Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd | (2,339) | (2,407) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod** | 159,765 | 154,675 |

**RHWYMEDIGAETHAU O RAN BUDDION WEDI'U DIFFINIO (parhad)**

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (parhad)**

| | **2023 £000** |
|---|---|
| Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio | (117,820) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 159,765 |
| Asedau net | 41,945 |
| Cyfyngiadau i derfyn uchaf yr asedau | (40,310) |
| Asedau net a gydnabyddir yn y fantolen | 1,635 |

Mae gwerth cyfran y Grŵp o'r asedau net wedi'i gyfyngu oherwydd mai terfyn uchaf yr asedau yw gwerth mwyaf posibl y buddion economaidd sydd ar gael ar ffurf yr hawl ddiamod i gyfraniadau llai o'r cynllun. Gwnaed addasiad cyfatebol i'r incwm arall a gydnabyddir yn y cyfnod.

Amcangyfrifir mai £3,805,000 fydd gwerth cyfraniadau'r cyflogwr am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Gorffennaf 2023. . Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu yw £158,000 (2022 - £166,000).

Dengys y cyfrifon hyn na chafwyd effaith ariannol ar gostau gwasanaeth blaenorol yng nghyswllt dyfarniad McCloud, a ddyfarnodd fod y diogelwch trosiannol, a roddwyd i rai aelodau cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus adeg eu diwygio, yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail oedran. Defnyddiwyd yr un tybiaethau ariannol a demograffig eraill i gyfrifo cost gwasanaeth blaenorol ag a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaeth y cynllun yn gyffredinol. Mae cost gwasanaeth blaenorol yn arbennig o sensitif i'r gwahaniaeth rhwng y twf hir dymor tybiedig mewn cyflogau a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Defnyddiwyd yr un tybiaethau actiwaraidd yn achos codiadau cyflog a'r CPI. Pe bai'r tybiaethau o ran twf cyflogau yn yr hir dymor 1% y flwyddyn yn uwch, disgwylid i gost gwasanaeth blaenorol fod oddeutu £800k.

Grŵp Llandrillo Menai

## 23. NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIAD LLIF ARIAN

**Dadansoddiad cyfunol o newidiadau mewn cronfeydd net**

| | Ar 1 Awst 2022 £'000 | Llif arian £'000 | Prydlesi ariannol newydd £'000 | Newidiadau anariannol eraill £'000 | Newidiadau mewn gwerth ar y farchnad £'000 | Ar 31 Gorffennaf 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arian parod mewn llaw, | 30,670 | (6,547) | - | - | - | 24,123 |
| | 30,670 | (6,547) | - | - | - | 24,123 |
| Benthyciadau gan | (246) | 121 | - | - | - | (125) |
| Buddsoddiadau mewn | 3,544 | (544) | - | - | - | 3,000 |
| **Cronfeydd net** | **33,968** | **(6,970)** | **-** | **-** | **-** | **26,998** |

## 24 YMRWYMIAD O RAN CYFALAF (Y GRŴP A'R COLEG)

| | Y Grŵp a'r Coleg | |
|---|---|---|
| | **2023 £'000** | **2022 £'000** |
| Ymrwymiadau a gontractiwyd ar 31 Gorffennaf | 13,289 | 9,228 |

Nid oes ymrwymiadau o ran prydlesi ariannol yr ymgymerwyd â hwy ond nas darparwyd ar eu cyfer eto yn y datganiadau ariannol.

## 25 YMRWYMIADAU O DAN BRYDLESI GWEITHREDOL (Y GRŴP A'R COLEG)

Mae cyfanswm isafswm y taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol nad oed modd eu diddymu fel a ganlyn.

| | Y Grŵp a'r Coleg | |
|---|---|---|
| **Taliadau dyledus** | **2023 £'000** | **2022 £'000** |
| Symiau sy'n ddyledus ymhen llai na blwyddyn | 31 | - |
| Symiau sy'n ddyledus ymhen llai na phum mlynedd | 156 | - |
| Mwy na phum mlynedd | 182 | - |
| | 369 | - |

## 26 TRAFODION PARTÏON PERTHYNOL

Oherwydd natur gweithrediadau'r Grŵp a chyfansoddiad bwrdd y llywodraethwyr (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau lleol sy'n rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat), mae'n anochel y cynhelir trafodion gyda sefydliadau y mae gan aelod o fwrdd y llywodraeth fuddiant ynddynt.

Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y mae gan aelod o fwrdd y llywodraethwyr fuddiant ynddynt o hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol y Grŵp.

Mae'r Grŵp yn cefnogi'r saith egwyddor mewn perthynas â bywyd cyhoeddus a amlinellwyd gan Bwyllgor Nolan. O ran hyn, cred y Grŵp fod yr egwyddor o fod yn agored yn golygu bod gofyn datgelu trafodion nad yw'n ofynnol yn ôl FRS 8. Felly, nodir isod gyfanswm y taliadau a wnaed gan sefydliadau sydd â chysylltiad ag aelod o'r Bwrdd.

Ni fu unrhyw ddileadau yng nghyswllt trafodion partïon perthynol.

Nid oes unrhyw Lywodraethwr wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol na thaliadau wedi'u hepgor gan y coleg na'i is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn (2022: Dim).

***North Wales Training Limited - is-gwmni Grŵp Llandrillo Menai***

Cyfanswm y trafodion prynu yn ystod y flwyddyn oedd £93k (2022: £71k). Cyfanswm y trafodion gwerthu yn ystod y flwyddyn oedd £1k (2022: £36K). Y balans a oedd yn ddyledus gan ddyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £dim (2022: £14k).

## TRAFODION PARTÏON PERTHYNOL (parhad)

| Aelodau'r Bwrdd sydd â Chysylltiad | Sefydliad | Natur y Berthynas | 2023 Incwm £ | 2023 Taliadau £ |
|---|---|---|---|---|
| Mr Dafydd Evans | Colegau Cymru | Cyfarwyddwr Cyffredinol | 248,198 | 98,632 |
| Dilwyn Evans | Cyngor Sir Ynys Môn | Y Pwyllgor Archwilio | 273,041 | 20,863 |
| Dr G Jones | Prifysgol Bangor | Y Pwyllgor Archwilio | 2,138,126 | 356,901 |
| | | Llywodraethwr | 13,589 | - |
| | Menter Môn Cyf | Cyfarwyddwr Cyffredinol | 140 | 2,000 |
| Ms M Pryor | Cyngor Sir Ynys Môn | Cyflogedig | 273,041 | 20,863 |
| Mr H Pugh | NFU | Aelod | - | 3,003 |
| Mr A W Thomas | J W Hughes and Co | Aelod wedi ymddeol | - | 3,031 |
| Yr Athro Carol Tully | Prifysgol Bangor | Aelod o'r Cyngor | 2,138,126 | 356,901 |

| Aelodau'r Bwrdd sydd â Chysylltiad | Sefydliad | Natur y Berthynas | 2022 Incwm £ | 2022 Taliadau £ |
|---|---|---|---|---|
| Mr Dafydd Evans | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Aelod | 11,265 | - |
| | Colegau Cymru | Cyfarwyddwr Cyffredinol | 109,563 | 90,698 |
| Dilwyn Evans | Cyngor Sir Ynys Môn | Y Pwyllgor Archwilio | 242,019 | 10,320 |
| Dr G Jones | Prifysgol Bangor | Y Pwyllgor Archwilio | 470,096 | 42,992 |
| | | Llywodraethwr | 20,710 | - |
| Ms M Pryor | Cyngor Sir Ynys Môn | Cyflogedig | 242,019 | 10,320 |
| Mr H Pugh | NFU | Aelod | - | 3,341 |
| Mr A W Thomas | J W Hughes and Co | Aelod wedi ymddeol | - | 11,861 |
| Yr Athro Carol Tully | Prifysgol Bangor | Aelod o'r Cyngor | 470,096 | 42,992 |

## 27 CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN

Dosbarthwyd dyraniad Grŵp Llandrillo Menai fel a ganlyn:

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau AdAS | 835 | 712 |
| Grant AdAS (dygwyd ymlaen) | 82 | 163 |
| Talwyd i fyfyrwyr | (886) | (757) |
| Costau Gweinyddu | (25) | (23) |
| Cyfunwyd mewn datganiadau ariannol | - | - |
| Grant AdAS (dygwyd ymlaen) | (6) | (82) |
| Dychwelwyd i Lywodraeth Cymru | - | 13 |

Mae grantiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gael i fyfyrwyr yn unig. Gweithredu fel asiant talu yn unig a wna'r Grŵp. Felly mae'r grantiau a dosbarthu'r arian cysylltiedig wedi'u heithrio o'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr.